



Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Swyddogion newydd y C.Ff.I.



Tudalen 2

Cadwyn Cyfrinachau arall




Tudalen 17

Eisteddfod Ysgol Y Dderi



Tudalen 22



Ni ar y ffordd i Lanelwedd!!



Unawd Bl. 2 ac Iau – Noa Potter-Jones, Ysgol Dyffryn Cledlyn 1af.



Côr Bl. 6 ac Iau [Ysg hyd 150] – Ysgol Dyffryn Cledlyn 1af.



Gwennan Owen, Llanllwni - Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau 1af a Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau 1af.



Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau [D]
- Seirian Cutler, Ysgol Bro Pedr 1af



Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd enillodd Unawd, Llefaru, Cerdd Dant Bl. 3 a 4, Unawd Alaw Werin a'r Ddeuawd Bl. 6 ac Iau.



Unawd Piano Bl. 7 – 9 – Sioned Fflur Davies, Ysgol Bro Pedr – Adran Hŷn 1af



Sara Elan Jones, Ysgol Bro Pedr - Llefaru Unigol Bl. 10 ac o dan 19 oed –1af, Unawd Cerdd Dant Bl. 10 ac o dan 19 – 3ydd, cyflwyno Alaw Werin Bl. 10 ac o dan 19 oed – 2il, Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed – 2il.



Grŵp Llefaru Bl. 9 ac Iau [Adran]
– Aelwyd Llambled 1af.

Swyddogion newydd Clybiau Fferwmyr Ifanc y ddwy Sir



Mewn dawns yn ddiweddar dewiswyd swyddogion Rali Cffi 2018 gyda Elin Haf Jones, Llanwenog yn Frenhines y Flwyddyn ac Iwan Rhys Davies, Llanddewi Brefi yn Fferwmyr Ifanc y Flwyddyn, Eu dirprwyon yw Megan Jenkins, Llanddewi Brefi, Lowri Pugh Davies, Bro'r Dderi, Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon a Dyfrig Williams. Llangwryfon.



Ar nos Wener y Groglith cynhaliwyd Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Sir Gâr. Dewiswyd y canlynol am y flwyddyn 2018/19: Llysgenhades – Caryl Jones, C.Ff.I. Llanddarog; Llysgennad – Arwel Jones, C.Ff.I. Llanllwni; Dirprwyon – Dafydd Davies, C.Ff.I. Llandeilo a Sian Elin Williams, C.Ff.I. Cwmann. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@EnfysHatcher](https://twitter.com/EnfysHatcher)
Mawrth 31

Pnawn o ddathlu'r pasg yng Nghapel Brynhafod heddi. Diolch [@JillTomas](https://twitter.com/JillTomas) am stori parti Iesu. Wedi addurno wyau, helpa wyau, cinio ffein a stori gan Mags. [@BedyddGogTeifi](https://twitter.com/BedyddGogTeifi) [@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@YsgolBroPedr](https://twitter.com/YsgolBroPedr)
Mawrth 28

Llongyfarchiadau i dîm Ceredigion dan 15 am fynd trwyddo i ffeinal y Dewar Shield. Bydd y bechgyn yn cael yr anrhydedd o chwarae'r ffeinal yn Stadiwm y Principality, Ardderchog!! Yn y llun Carwyn Rosser, Jac Williams a Rhys

Rooke-Williams. Da iawn chi! Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@drindoddewisant](https://twitter.com/drindoddewisant)
Mawrth 21

Cofiwch am Ddiwrnod canoloesol [@drindoddewisant](https://twitter.com/drindoddewisant) yn [@Llambod](https://twitter.com/Llambod) ddydd Sadwrn yma - digon o hwyl a gweithgareddau ar gyfer y teulu cyfan.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@CarregHirfaen](https://twitter.com/CarregHirfaen)
Mawrth 19

Wedi cyrraedd yn saff! Blwyddyn 4 yn mwynhau y golygfeydd.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a fforddiadwy i'ch holl anghenion gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu biniau maint:
240 / 660 a 1100 Litr



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Ebrill Marian Morgan, Rhydyfelin, Drefach 481855
Mai Siwan Richards, 9 Cwrt Dulas, Llanbed 421534
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llanbed Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Yr iaith Gymraeg

Fe ges i fy ysbrydoli i 'sgrifennu'r golofn hon gan air o brofiad ffrind i fi. Bu yng nghlyw nifer o blant ysgol lleol yn ddiweddar, a dywedodd iddi glywed tair iaith yn cael eu siarad – Pwyleg, Tseiniaidd a Saesneg. Dim un gair o Gymraeg.

Nawr, rwy'n gwybod bod mewnfudo wastad wedi bod – a wastad yn mynd i fod – yn bwn sensitif a dadleuol. I fi, mae 'na wahaniaeth rhwng mewnfudo a cheisio lloches. Ac mae rhai yn gweld gwahaniaeth rhwng mudo o wledydd tramor (h.y. dros y dŵr ym marn rhai) a mudo o unrhyw wlad ar wahân i Gymru. Eto, i fi, mae tu fas i Gymru yn 'dramor' – oherwydd gwlad ar wahân yw Cymru, nid atodiad i Loegr, er nad oes ffin galed rhwng y ddwy wlad. Mewnfudo mae rhywun yn ei wneud os daw o Henffordd neu o Haiti. Ond dyw hynny ddim i ddweud nad oes croeso i'r naill na'r llall. Mae 'na enghreifftiau o fewnfudwyr sydd wedi cyfrannu at ein cymdeithas ac wedi cyfoethogi ein cymunedau. Enghraifft amlwg i ni yn ardal Clonc yw Kees Huysmans, enillydd y Rhuban Glas a dyn waffls Tregroes. Dyma un a ddaeth yma o'r Iseldiroedd gan sylweddoli fod gan Gymru ei hiaith arbennig; aeth ati i'w dysgu, a sefydlu busnes yng nghalon cymuned Gymraeg. Mae 'na enghreifftiau eraill wrth gwrs, a diolch iddynt am eu cyfraniadau.

Ond y mae eraill y gwyddom ni'n iawn amdany'n nhw. Ac y mae rhai – a fagwyd ar ein tir ein hunain, er mawr dristwch i ni – sy'n wrthun i'n hiaith ac i'n hetifeddiaeth. Dyma'r rhai sy'n gwneud pethe'n lletchwith. Calla dawo, mae'n siwr ... ry'ch chi'n eu nabod nhw, glei!

Digon rhwydd i fi bregethu yn nhudalennau Clonc oblegid ry'ch chi gyd yn medru'r Gymraeg. Ond daliwn ati, a diolchwn ein bod wedi'n bendithio â'n dawn gynhenid i siarad Cymraeg, neu, â gweledigaeth i'w gwerthfawrogi a'i dysgu. Os yw Llywodraeth Cymru am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae 'na dalcen caled o'n blaenau. Ac wn i ddim ar wyneb daear sut mae cael plant ysgol i'w siarad ar yr iard ... does ond gobeithio y gwnân nhw gallio a sylweddoli wrth brifio. Peth rhyfedd yw ysgol brofiad, am wn i.

Cloncen

Silffoedd yn wag



Er na ddisgynodd ond ychydig iawn o eira yng nghyffiniau Llambod mae'n siwr fod llyisiau yn brin ar fyrddau nifer ar y Sul canlynol. Roedd silffoedd Archfarchnad y Coop yn eitha gwag erbyn prynhawn Sadwrn, gan fod y 'Beast from the East' wedi rhwystro'r lorïau i gyrraedd gyda'r nwyddau.



Joanna Grundy ac Emma Wood staff 'Camfan' yn derbyn £265 gyda chyfanswm tebyg yn cael ei drosglwyddo hefyd i Ros Jones ar ran Ambiwylans Awyr Cymru gan swyddogion The Lampeter Farm Womens Club yn ystod ei cawl Gŵyl Ddewi. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad codi arian ganddynt yn ddiweddar.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn
cytuno ag unrhyw farn
yn y papur hwn.



EBRILL

- 6 Cwis yn Neuadd Llanfair Clydogau am 7.30y.h.
- 8 Rihysal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi, Llambed. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5.00yh.
- 13 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Noson Bingo yn Ffostrasol Arms.
- 14 Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth yn neuadd yr Ysgol i ddechrau cyfyngedig i ysgolion lleol am 10.00y.b. ac agored am 2.30.
- 14 Cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. Elw y noson i'w rhannu rhwng C.Ff.I. Ceredigion ac Ysgol Dyffryn Cledlyn.
- 15 Rihysal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel Alltyblaca. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 18 Cwmni Morlan yn cyflwyno Anterliwt gyfoes DONALD BRICIT a Stryd y Domen am 7.30y.h. yn Neuadd sector Iau Ysgol Bro Pedr. Trefnir gan Ferched y Wawr a Phlaid Cymru Llanbed. Elw at Ddechrau Cronfa Llanbed ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Tocynnau gan Ann Morgan 422413 Rhys Bebb 423466 neu Siop y Smotyn Du.
- 19 Sesiwn hyfforddi pêl-rwyd am ddim yng Nghanolfan Hamdden Llambed 7.30 - 9.00y.h.
- 20 Dawns Dewis Brenhines Carnifal Llanybydder yng Nglwb Rygbi Llanybydder.
- 22 Taith Dros Fywyd, Clefyd Arennau Cymru o amgylch Parcyrrhos 3 Milltir. I gychwyn am 10.30y.b. ger Hen Ysgol Cwmann. Nod y Flwyddyn Hon yw Hospice neu Lletygarwch.
- 21 Sioe Feirch Llambed yn Llanllyr, Talsarn am 9.00y.b.
- 22 Taith Dros Fywyd, Clefyd yr Arennau Cymru, 3 milltir o amgylch Parc-y-rhos am 10.30y.b. o hen Ysgol Coedmor.
- 22 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Alltyblaca. Plant ac Ieuenctid am 2.00y.p a'r Oedolion am 5.30y.h.
- 24 Eisteddfod Rhanbarth Celf a Chrefft yng Ngwersyll Llangrannog.
- 27 Cinio Cadeirydd C.Ff.I. Ceredigion ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llambed m 7.30y.h.
- 27 Noson Goffi Flynyddol yn festri Aberduar am 7.00y.h. dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder.
- 28 Her 21 milltir Aberaeron i Lanbed gan ddechrau am 9.00y.b.
- 28 Dawnsathon yn Stiwdio Ddawns Sally Saunders o 2.00 i 5.00y.p. i godi arian tuag at Tenovus.
- 28 Noson gyda Huw Evans yng Ngwesty'r Cross Hands, Llanybydder. Llywydd Mr Karl Patel. Elw tuag at Ymchwil Cancr Cangen Llanybydder a'r ardal. Bydd Ocsiwn a Raffl. Tocyn £15 ar gael yn y Cross Hands. Swper Ysgafn.
- 29 Taith Gerdded Blynnyddol dechrau o sgwar gwaelod Cwrtnewydd am 10yb a nol i Festri Capel Seion am luniaeth. Elw tuag at A&E Glangwili. Y daith i ddilyn llwybr y Pingos, Glanyrafon a hanes yr ardal yma o'r Plwyf.
- 30 Cwrs Cymorth Cyntaf yn Neuadd Llanfair Clydogau am 7.00y.h.

MAI

- 1 Sesiwn holi ac ateb gyda Comsiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.30yh.
- 2 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambed am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 4 Cyngerdd wedi ei ail threfnu yng Nghapel Nonni. Artistiaid bydd parti "Bois Ar Wasgar" a phlant yr ysgol. Arweinydd y noson bydd Mr. Owain Davies. Tocynnau yn £5 ac ar gael o'r ysgol neu wrth y drws gyda plant oed cynradd am ddim. Croeso cynnes i bawb.
- 4-7 Penwythnos Dartiau Llambed.
- 5 Eisteddfod Gadeiriol Capel Y Fadfa Talgarreg. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.
- 6 Gwasanaeth y Maer yng nghapel Noddfa am 10.30y.b.
- 7 Ras Dyffryn Cledlyn – Rasys i ddisgyblion cynradd uwchradd ac oedolion. Ras cyntaf yn cychwyn am 12.45 y.p. yn yr Ysgol.
- 7 Gŵyl Calan Mai Pumsaint. Sioe, Carnifal a mwy. Manylion pellach wrth Mair ar 01558 650309.
- 11 Noson gyda'r Welsh Whisperer yng Nglwb Rygbi Llanbed gyda Chymdeithas Amaethyddol Llanbed.
- 11 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Noson Rasus Ceffyllau, Hafod Hotel, Devil's Bridge.
- 12 Rali C.Ff.I. Sir Gâr.
- 13 Rihysal y Bedyddwyr ym Methel Silian am 2.00y.p.
- 15 **Cyfarfod Blynnyddol Papur Bro CLONC.**
- 20 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambed am 5.00y.p. yn Salem Caio.
- 20 Ras Fynydd Sarn Helen gan ddechrau o Glwb Rygbi Llambed am 10.30 ac 11.00y.b.
- 27 It's a Knockout Llanybydder.

MEHEFIN

- 2 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Felinfach.
- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambed am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 17 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llanybydder yng nghwmni 'Parti Ffrindiau' i ddechrau am 7.30y.h. Pris Mynediad £5. Elw tuag at y Capel.
- 18 Noson acwstig yng nghwmni Bryn Fôn a'r band ac artistiaid eraill yn Neuadd Fictoria Llanbed. Trefnir gan Bwyllgor Gŵyl Dewi Llanbed. Tocynnau gan Ann Morgan 422413 neu'r pwyllgor a Siopau Lleol.
- 22 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Noson Gwis yng Nglwb Rygbi Aberaeron.

GORFFENNAF

- 4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambed am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 27 BBQ yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.

Gorsgoch

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Eric Jones
Hafod yr Wyn ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Geraint ac Eiddwen Hatcher, Cefnhafod ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf, mab bach i Enfys ac Emyr yn Llanddewi Brefi a gor-ŵyr bach arall i Dannie a Martha Davies, Llaingors. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Silian

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â theulu Tangraig ar golli mam, mamgu annwyl iawn ym mherson Mair Owen o Bronant.

Cwrtnewydd

Wyres newydd

Llongyfarchiadau i Tony ac Ursula Furlong, Tremle ar ddod yn ddadcu a mamgu am y tro cyntaf – ganwyd merch fach i Daisy a'i phartner yn ardal Caerdydd. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Pentrebach

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod mis Mawrth dathlodd Joy Williams, Derwen deg ei phen blwydd arbennig – gobeithio eich bod wedi joio'r dathliad.

Gohebiaeth

Annwyl gyfaill

Dyddiaduron 2019 Y Lolfa

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2019 Y Lolfa. Os ydych am ddiweddarau neu ddileu gwybodaeth - mae croeso i chi wneud hynny drwy ebostio sonia@yloffa.com

Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5 ac A4. Manylion llawn i ddilyn.

Mae'r Lolfa yn cynnig gwasanaeth argraffu a dylunio llawn. Os ydych am dderbyn pris neu gyngor am unrhyw waith argraffu mae croeso i chi gysylltu â Paul: paul@yloffa.com 01970 831901.





Corisma

Ar nos Sul, y 25ain o Fawrth, cynhaliwyd ein Cymanfa Ganu yng nghapel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan, a hynny er cof am Dilys Davies, cyn-aelod ffyddlon o'r côr. Croesawyd pawb gan Lena, ein Cadeirydd; talodd deyrnged hyfryd a phwrpasol iawn i Dilys, ac fe osododd hynny naws arbennig i'r noson. Cafwyd eitemau gan ferched Corisma, ynghyd â Chôr Meibion Cwmann, Meirian Morgan o GFfl Llangeitho a Deuawd Bryngwyn. Arweiniwyd yr emynau yn hwylus gan Carys a Delyth, gyda Rhian a Lois wrth yr organ, a chyda'r capel yn orlawn, codwyd y to gan ganu bendigedig y gynulleidfa wresog a ddaeth i'n cefnogi. Cafwyd lluniaeth ysgafn yn y festri ar ôl y Gymanfa, a chyfle i fwynhau clonc fach dros baned a chacen. Roedd holl elw'r noson yn mynd tuag at elusen Nyrsus Macmillan, ac fe godwyd bron i £2,000. Diolch o galon i bawb am eu cymorth, eu hymdrech a'u cefnogaeth, ac am gyfrannu at noson fydd yn aros yn ein meddyliau am amser hir.

Bydd y côr yn cael seibiant bach nawr dros wyliau'r Pasg, ac yn ail-gychwyn ar nos Lun, y 23ain o Ebrill. Cofiwch fod croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Ysbyty

Dymuniadau gorau ar ran pawb i Eiddig Jones, Gellidewi sydd yn y ysbyty ar hyn o bryd gan obeithio dy fod yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn.

Hefyd, da gweld Mrs Annie Jane Jones, Arfryn adref o'r ysbyty ac yn teimlo'n well.

Enillwyr Misol o'r Clwb 125

Mis Mawrth

Neuadd Sant Iago

1. Lena Williams, 39 Heol-Hathren, Cwmann, 79. 2. Gay Massey, Gellideg Maesllan, Llambled 67. 3. Sian Davies, Market Place, Llambled, 108. 4. Mr H. E. Williams, Brynmeusydd, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 118. 5. Dinny Hardy, Cwrtderi, Cwmann, 9. 6. Carol Doughty, Carys, Cwmann, 15. 7. Alun Jones, Glanrhyd, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 80.

Piano

Llongyfarchiadau i Undeg Medi Jones am basio arholiad Gradd 4 ar y Piano gyda chlod.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu a chysylltiadau Mr Rhys Jones, [Tanybryn] gynt a fu farw yng Nghartref yr Anedd, Llanybydder.

Hefyd, cydymdeimlwn â Pat Davies a'r teulu, Dolcoed ar farwoaleth ei mam mewn cartref yn Rhayadr ddiwedd y mis.

Golff



Llongyfarchiadau i Bryn Thomas o glwb golff Cilgwyn am chwarae i dîm Cymru o dan 18 yn erbyn Iwerddon, yn ystod penwythnos 24ain - 25ain o Mawrth. Bu tîm Cymru yn llwyddiannus drwy ennill 12.5 i 7.5.

Yn dilyn llwyddiant yn ei yrfa golff bydd Bryn yn mynd allan i'r Iseldiroedd yn mis Ebrill i chwarae efo tîm Cymru o dan 16 yn erbyn yr Iseldiroedd, Iwerddon a'r Alban.

Pob lwc i ti Bryn a'r tîm.

Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawodd y llywydd Gwen Jones bawb i gyfarfod mis Chwefror ar Lun y 5ed. Croesawyd June

yn ôl a dymuno pen-blwydd hapus arbennig i Iona. Soniodd bod y noson Dominoes wedi symud i'r Porth, Llandysul. Roedd Elma, Mary ac Iona wedi bod yn y Cwis yng Ngwesty Hanner Ffordd ac wedi cael noson wrth eu bodd. Aeth Gwen ymlaen i groesawu'r gŵr gwadd sef 'Dai Ram' fel roedd pawb yn eu adnabod. Cawsom ganddo noson ddfyr wrth iddo sôn am eu fywyd yn Llundain. Symudodd ei fam i Lundain yn 1920au. Aeth i'r ysgol yno yn bedair oed, yna symud yn ôl i Dregaron pan oedd yn saith oed, ac yna symud yn ôl eto i Lundain diwedd y Rhyfel. Yn 1962 prynu llaethdy yn Wimbledon ac aros yno tan 1972, yna symud yn ôl i Ystrad Meurig i ofalu am ei fam. Ym mis Mehefin 1973 prynu 'Ram' ac yna symudodd o'r Ram tua 1982-83. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo mewn ffurf pennill gan Brenda. Enillwyd y Raffl gan Noleen.

Dathlu Gŵyl Dewi yng ngwesty'r Talardd oedd ein cyfarfod ym mis Mawrth a chroesawyd ni yn gynnes gan y llywydd Elma. Llongyfarchwyd Tegwen a June ar enedigaeth wyrion.

Ar ôl y cawl a'r pwddin blasus a gawsom, aeth Elma ymlaen i gyflwyno'r gŵr gwadd sef John Jones, cyn berchennog y Talardd, cyn ymddeol ychydig fisoedd yn ôl ac yn awr yn byw yn Llandysul. Cawsom noson ddiddorol iawn ganddo wrth iddo sôn am rhan o'i fywyd. Cafodd ei eni yn Senghennydd a chawsom hanes trychineb y pyllau glo ar yr ardal. Pan oedd yn 15 oed symudodd i Sir Fôn, ac nid oedd ganddo lawer o Gymraeg. Bu yng Ngholeg y Drindod yn dysgu gwaith coed, ac yn mhen ychydig mentro i'r byd busnes. Mae'n mwynhau seiclo ac wedi codi tipyn o arian at achosion da. Ar hyn o bryd mae wedi dechrau edrych ar y 'Family Tree' ac yn ddiddorol iawn roedd ei hen hen ddatcu a'r enw John Jones ac yntau wedi cadw tafarn. Dysgodd hedfan trwy'r Gymraeg, ond wedi treulio rhan fwyaf o'i fywyd yn Nyffryn Aeron. Diolchwyd iddo gan Noleen ac hefyd i gwesty am y wledd. Enillwyd y raffl gan Joyce, Iona a Tegwen. Cyfarfod Grŵp Teifi yn y Ganolfan ar nos Wener, Mawrth 16. Cyfarfod Mis Ebrill yn Festri Bethel.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu plant yr ysgol yn brysus iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr ysgol yn Neuadd Coedmor ar Fawrth y 14eg. Cafwyd diwrnod hyfryd yng nghwmni'r Beirniad Verina Roberts a Joan Evans. Agos iawn oedd y cystadlu ond Cothi a gipiodd dlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd. Enillwyd cadair blynyddoedd 5 a 6 am stori Gymraeg gan Llyr Ifan Davies, a'r darian am y gwaith Saesneg gorau hefyd gan Llyr Ifan. Enillwyd cadair Cyfnod Sylfaen gan Jac Jones o flwyddyn 2. Ellie Gregson a enillodd gadair blynyddoedd 3 a 4 a Brychan Williams y darian am waith Saesneg. Llongyfarchiadau enfawr i bawb.



Yr unigolion a'r pwyntiau uchaf yn Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen oedd Casi Gregson yn CA2 a Mair Hopkins yn y Cyfnod Sylfaen.

Pysur hefyd oedd ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd Llanbed. Llongyfarchiadau anferthol i Maisie Mcowan am gipio'r ail wobwr yng nghystadleuaeth canu unigol blwyddyn 2 ac iau. Cafodd y grŵp llefaru a chôr yr ysgol yr ail wobwr.

Llongyfarchiadau anferthol i dîm dawnsio'r ysgol a fu'n cystadlu yng Ngŵyl Ddawns Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd ysgol Bro Teifi yn ystod y mis. Cipiodd y grŵp dawnsio disgo y drydydd wobwr gyda'r grŵp creadigol yn ennill y gystadleuaeth ac yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Ceredigion yn y

Genedlaethol ym mis Mai. Diolch yn fawr iawn i Sioned Allan am hyfforddi'r plant.

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a fu'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad Dyfed yn ystod y mis. Llongyfarchiadau anferthol i Casi Gregson a lwyddod i gipio'r drydedd wobwr yn ras y merched blwyddyn 5 a Joshua Morris hefyd yn cipio'r drydedd wobwr yn ras y bechgyn ym mlwyddyn 3.

Mae Dyfrig Dafis o Ysgol Bro Pedr wedi bod yn hyfforddi sgiliau rygbi i ddisgyblion CA2 pob prynhawn dydd Mawrth ers dechrau'r flwyddyn. Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'r profiad ac wedi cael llawer o fwynhad.

Yn ystod y mis buodd Plant a Staff blynyddoedd 3 a 4 am dridiau i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsom dywydd bendigedig a thridiau llawn hwyl a sbri!

Dyma adroddiad Ifan Jones o flwyddyn 4.

Ar ddydd Llun, Mawrth 19eg aeth blwyddyn 3 a 4 i Langrannog. Ar ôl i ni gyrraedd aethon i'n ystafelloedd cyn mynd i gerdded am ddwy awr a hanner lawr i'r traeth. Roedd y golygfeydd yn fendigedig. Roedd pawb yn hapus iawn pan gyrhaeddodd ni nôl yng ngwersyll yr Urdd ar ôl cerdded mor bell. Am chwarter wedi dau aethom i farchogaeth ceffylau. Roeddwn wedi cael y cyfle i arwain a brwsio'r ceffyl. Aethon ymlaen i'r rhaffau isel ac wedyn cael y cyfle i chwarae gemau mewn timoedd.

Ar ôl swper aethon i chwarae gemau pêl ac aeth rhai i'r siop! Doedd neb wedi cysgu llawer nos Lun ac wedi cadw Miss Davies a Miss Griffiths ar ddihun trwy'r nos.

Ar ddydd Mawrth cawsom dro ar y trampoline a'r cwads, y cyfle i gyfeiriannu o gwmpas y gwersyll ac hefyd saethyddiaeth. Sgio oedd y peth gorau i mi a chefais i gyfle i sgio o dop y llethr i'r gwaelod. Es i dros y rampiau yn hyderus.

Cawsom lawer o hwyl yn gwigbartio gyda Hari a fi yn rasio yn erbyn ein gilydd. Rhaffau uchel oedd y weithgaredd olaf! Am ddiwrnod prysur. Ar ôl swper aethon i'r disgo ac roedd pawb yn gwely'n gynnar. Roedd yr athrawon yn falch iawn i gael noson o gwsg.

Ar y diwrnod olaf aethon i ddringo'r wal ddringo a nofio. Cefais amser penigamp yn Llangrannog.

Diolch yn fawr iawn i Meical Morgan am ymweld â'r ysgol i ddysgu i blant blwyddyn 3 a 4 sut i roi cymorth cyntaf i bobl. Dysgodd y plant sut i wneud CPR, sut i helpu rhywun sydd yn tagu, sut i roi pobl yn y safle achub a sut i helpu pobl yn gyffredinol.

Daeth PC Hannah a PC Eleri allan yn ystod y mis i drafod dioelwch ar y we gyda phlant blwyddyn 3 a 4. Cawsom amser da wrth ddysgu sut i gadw'n SMART ar lein.

Buodd plant Meithrin a Derbyn ar ymweliad i archfarchnad Co-op yn



ddiweddar. Diolch i'r staff am y croeso.

Fel rhan o'n gwaith ar y thema 'Dewch i ddarganfod' aeth plant blwyddyn 1 a 2 i ymweld â bwyty Tseiniaidd 'Ling di Long'. Fe gawsant y cyfle i flasau amrywiaeth o fwydydd gwahanol a dysgu llawer am draddodiadau'r wlad.



Côr Meibion Cwmann

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Côr ar y 17eg o Ionawr yn Festri Brondeifi am 7:30y.h.

Wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb, darllen y cofnodion blaenorol a thrafod unrhyw faterion derbyniwyd sylwadau caredig y Llywydd, Mr Alun Williams, sydd yn disgwyl cael llawdriniaeth yn y dyfodol agos. Mae swyddogion ac aelodau'r Côr yn gwerthfawrogi cefnogaeth ffyddlon a chysnwr Mr Williams i holl weithgareddau'r Côr oddi ar ddyddiau cynnar ei fodolaeth.

Yn ei anechriad fel Cadeirydd y Côr mynegodd Mr Haydn Richards ei fod yn ddiolchgar i'r aelodau am eu presenoldeb cyson yn yr ymarferion a'r cyngherddau. Diolchodd yn arbennig i Mrs Elonwy Davies, yr arweinyddes ac i Mrs Elonwy Pugh Huysmans y gyfeilyddes am eu gwaith diflino a ffyddlon.

Bu'r flwyddyn 2017 yn un brysur yn hanes y Côr a diolchodd i'r Swyddogion ar ran ei hun fel Cadeirydd ac ar ran yr aelodau, am gyflawni eu dyletswyddau mor hwylus a diffwdan yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd Mr Richards hefyd i Kees Huysmans am gymryd dyletswyddau'r Cadeirydd pan y bu'n absennol oherwydd iddo dderbyn llawdriniaeth.

Derbyniwyd adroddiadau

cynhwysfawr oddi wrth yr Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Aelodaeth, yr Ysgrifennydd Cofnodion a'r Trysorydd.

Ail etholwyd y Swyddogion canlynol:

Llywydd – Mr Alun Williams
Is Lywyddion – Ni phenodwyd
Is lywydd newydd ond mae'r rhai sydd wedi eu penodi eisoes yn dal y swyddi yn barhaol.

Cadeirydd – Mr Haydn Richards
Is Gadeirydd – Mr Kees Huysmans
Ysgrifennydd – Mr Alun Jones
Trysorydd – Mr Keri Davies
Is Ysgrifennydd – Mr Danny Davies

Ysgrifennydd Cofnodion – Mr Danville Griffiths

Ysgrifennydd Aelodaeth – Mr Emlyn Davies

Llyfrgellydd – Mr Bryan Davies

Trefnydd – Mr Danny Davies

Rheolwr Llwyfan – Mr Eifion Davies

a Mr Emyr Jenkins

Gohebydd y Wasg – Mr Stan Evans

Cadarnhawyd yn ffurfiol swyddi'r Arweinyddes a'r Gyfeilyddes sef Mrs Elonwy Davies a Mrs Elonwy Pugh Huysmans.

Cyflwynwyr – Mr Cyril Dvaies a Mr Rhys Bebb Jones

Aelodau'r Pwyllgor Cerdd – ail etholwyd presennol

Swyddog archifau – Mr Emyr Jenkins

Wedi i'r cyfarfod ddod i ben mwynhawyd lluniaeth blasus wedi ei



Côr Meibion Cwmann a'r Cylch yn cefnogi beicwyr Côr Hen-dy gwyn a'r Daf ar ei taith elusen ar feic i'r Neuadd Albert Llundain er budd Prostate Cymru.com

Enillwyr Misol o'r Clwb 225 Pentref Cwmann Mis Mawrth

1. Mr & Mrs E. James, Mark Lane, Llambod, 235. 2. G. Lewis, 18, Heol-Hathen Cwmann, 9. 3. Fiona Davies, Llysteifi, Cwmann, 121. 4. Mrs H. Randell, Maesyrhendre, Cwmann, 149. 5. Neville & Eleanor Davies, Pleasant View, Llambod, 128. 6. Kevin Doyle, Caradog Vue, Cwmann, 133. 7. Dylan & Carys Davies, 8, Cysgod-y-Coed, Cwmann, 39.

60 oed

Dathlodd Andrew Evans, Rhoswen ben-blwydd arbennig ar ddydd Gŵyl Dewi. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod.

C.Ff.I. Llanllwni

Mae cyfnod y Pantomeim wedi dod i ben am flwyddyn arall. Diolch yn fawr i bawb a wnaeth helpu allan mewn unrhyw ffordd wrth i'r clwb ddod yn 6ed erbyn diwedd y gystadleuaeth. Ond mae ein diolch pennaf i Gary a Catrin Davies am ein helpu eleni eto. Diolch yn fawr. Roedd hi'n bwysig i ni yna i ddangos ein diolch i bawb am yr help dros y flwyddyn olaf wrth berfformio eitemau'r Eisteddfod a'r Pantomeim, ond o flaen cynulleidfa leol y tro yma. Diolch yn fawr i Lywyddion y noson sef; Mr a Mrs Gareth a Siân Ioan, Drefach. Diolch hefyd i Ysgol Bro Teifi am adel inni ddefnyddio'r cyfleusterau arbennig.



Llongyfarchiadau i aelodau o Lanllwni a wnaeth gystadlu yn Siarad Cyhoeddus Cymru sef Owain Davies a Sioned Howells a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Dadl o dan 21.

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Hoffai'r Cylch ffarfelio â Beca Davies, Macs Harries, Rhodri Evans, Catrin Davies a Loti Hopkins ar diwedd y tymor gan eu bod yn ymuno â'r Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llanllwni ar ôl y gwyliau Pasg.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol y Cylch Meithrin a Ti a Fi Nos Fawrth 15eg o Fai am 8yh yn Ysgol Llanllwni. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd!

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45-12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 10-12yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalwyr,

mamgu's a thadcu's i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros bandedd.

Ysgol Llanllwni

Fel rhan o ddathliadau "Diwrnod y Llyfr" aethom fel ysgol ar ymweliad â'r Llyfrgell yng Nghaerfyrddin. Cawsom ein tywys o amgylch y Llyfrgell a buodd y plant yn diddanu y cyhoedd drwy ganu ac adrodd. Gorfu i ni ddychwelyd i'r ysgol ynghynt na drefnwyd oherwydd yr eira. Diolch i Georgina a'r staff am y gwahoddiad a'r croeso. Gobeithio cawn gyfle i ymweld eto yn y dyfodol.

Cynhaliwyd ein Eisteddfod Ysgol ar y 7fed o Fawrth. Y beirniad eleni oedd Mrs. Pauline Jones, sef mam y tenor adnabyddus, Mr. Aled Hall Jones. Roedd wedi mwynhau y gwaith gan synnu at safon y perfformiadau. Roedd yn falch hefyd o gael dychwelyd 'nôl i'r ysgol lle cafodd ei haddysg gynnar! Tîm Teifi enillodd y darian eleni. Roedd yn braf gweld yr ystafell dan ei sang o rieni a ffrindiau'r ysgol yn cefnogi gwaith caled y plant. Diolch hefyd i Mrs. Eirlys Owen am gyfeilio.

Bu grŵp llefaru yr ysgol yn perfformio'r darn "Llau Pennau" yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanbed. Roedd Alwena, Elan a Mared yn cystadlu hefyd gydag Adran yr Urdd Llanbed. Bu sawl plentyn yn cystadlu yn rhagbrofion y bore. Profiad newydd i nifer ohonynt. Da iawn chi gyd. Llongyfarchiadau i Alwena a Gwennan ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch ac i Gwennan am ei llwyddiant yn Eisteddfod y Rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid. Pob lwc i ti yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai.

Buom yn dathlu diwrnod "Masnach deg" drwy gael pwerpwynt a gweithgareddau amrywiol. Daeth y plant ag enghreifftiau o becynnau bwyd mewn hefyd.

Daeth cwmni ffotograffiaeth "Finnesse" atom un bore i dynnu lluniau'r plant – roedd pawb yn gwenu yn braf wrth edrych at y camera!

Bu'r Adran Iau ar ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a gweld gwaith yr arlunydd enwog Kyffin Williams – ymweliad diddorol iawn.

Ar ddiwrnod "Sports Relief" buom yn casglu arian a cherdded milltir o amgylch yr ysgol.

Bu swyddogion o NSPCC yn siarad â'r plant am waith yr elusen drwy pwerbwynt a thrafodaeth.

Rydyn yn ddiolchgar iawn i Gwmni Statkraft am eu rhodd i'r ysgol i brynu adnoddau. Yn ein cefnogi yn gyson mae'r Cyngor Bro ac rydyn yn ddiolchgar am y rhodd a

dderbyniom yn ddiweddar. Cawsom rodd o £500 hefyd gan Mr. David Doyle o Peterwell Lodge, Llanbed. Roedd Mr. Doyle yn ddisgybl yn yr ysgol dros drigain mlynedd yn ôl. Diolch yn fawr i chi gyd.

Gorfwyd gohirio ein cyngerdd ar ddechrau Mis Mawrth oherwydd yr eira. Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol wrthi yn ail drefnu y gyngerdd a fydd nawr yn cael ei chynnal ar Nos Wener, 4ydd o Fai yng Nghapel Nonni. Edrychwn ymlaen at groesawu "Bois ar Wasgar" yn artistiaid, ynghyd â phlant yr ysgol gyda Mr. Owain Davies, Gwndwn yn arweinydd y noson. Tocynnau'n £5 ac ar gael o'r ysgol neu wrth y drws gyda phlant oed cynradd am ddim. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Mawrth-

1af - £10 – Anne Gibby,

Llanybydder

2ail - £5 – Alun Williams, Birch Brook, Llanllwni

3ydd - £5 – Erin Evans, Parklane, Llanllwni

Eglwys Sant Luc

Clwb 100 mis Mawrth 2018:

Enillwyr:

1af £15 (rhif 88) Lydia Jones

2il £10 (rhif 58) Dewi Davies

3ydd £10 (rhif 99) Keith a Meinir Evans

Llongyfarchiadau, a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Undeb y Mamau: (cyfarfod mis Mawrth)

Bu Kevin Williams, Brynsegur, yn ein hannerch ar gadw gwenyn. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn gwrando arno'n esbonio y gwaith sy'n mynd i gadw gwenyn, yn ogystal â'r hanes, a'r eirfa sy wedi goroesi o'r diddordeb yma. Roedd ei frwdfrydedd yn amlwg iawn. Diolchwyd iddo gan y Ficer.

Yn Ebrill, bydd Luned Davies, Dihewyd yn bresennol i ddangos gwaith llaw. Edrychwn ymlaen, gan i Luned fethu a dod atom oherwydd y tywydd yn Rhagfyr.

Yn affodus, mae Ifora'n dal yn yr ysbyty, ac anfonwn ein dymuniadau gorau ati.

Estynnwn ein cydymdeimald dwysaf â dwy o'n haelodau. Mae Sarah Jones, Sarn Helen wedi cael ergyd drom ym marwolaeth ei mab Eirian yn Abertawe. Mae ein meddyliau a'n gweddïau diffuant gyda Sarah, ei merch Dilys, a'r teulu.

Mae Gillian, yn drist iawn, wedi colli nith a ffrind annwyl iddi sef Kathleen Edwards, Tregaron. Bu farw Kathleen yn Alltymynydd, ar ôl mynd yn sâl yn yr Hydref, a threulio wythnosau ym Mronglais. Roedd hi'n gymwynasgar iawn yn

ei milltir sgwâr, ac hefyd tuag aton ni yn Eglwys Llanllwni. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Gillian, Heather chwaer, Kathleen a Gareth ei gŵr, ac â'i chefniderwyr Melvyn a Geraint a'u teuluoedd yn Llanllwni.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Johnny ac Ann Howells, ar enedigaeth ŵyr bach yn ystod y mis, Dafydd Isaac, mab bach i Gary a Meinir ym Mhentrecwrt.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Johnny Howells, ar ôl iddo dderbyn anffawd yn ddiweddar ac sydd yn Ysbyty Treforys ar hyn bryd.

Gohebiaeth

Ailgylchu siacedi llachar yn gotiau cŵn

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn lansio cynllun peilot newydd i gadw cŵn yn fwy diogel a phalmentydd yn lanach trwy droi siacedi llachar yn gotiau cŵn.

Gan barhau eu partneriaeth gyda Lisa Broom o Gaerdydd, a weithiodd ar y prosiect bin car llwyddiannus gyda Chadwch Gymru'n Daclus, bydd deunydd sy'n cael ei roi gan weithwyr adeiladu yn cael ei droi'n gotiau thermol, clustogog, diddos ar gyfer cŵn. Bydd y cotiau cŵn yn cynnwys poced ddefnyddiol ar gyfer bagiau baw cŵn i helpu i gadw strydoedd a pharciau'n lân.

"Mae'n wych ymuno gyda Chadwch Gymru'n Daclus unwaith eto i fynd i'r afael â gwastraff a sbwriel, gan ganolbwyntio y tro hwn ar ein cyfeillion pedair coes. Does neb yn hoffi gweld baw cŵn ar hyd y lle a'n gobaith yw y bydd y cotiau hyn yn helpu perchnogion cŵn i fod yn lân tra'n cadw eu ci yn gynnes, yn ddiogel ac yn sych ar yr un pryd."

Yn ôl adroddiad Cymru Gyfan diweddaraf Cadwch Gymru'n Daclus "Pa Mor Lân Yw Ein Strydoedd?", cofnodwyd baw cŵn ar 8.6% o'r strydoedd a arolygwyd sef y ffigur isaf hyd yn hyn. Mae digon i'w wneud o hyd i sicrhau bod strydoedd Cymru'n rhydd rhag baw cŵn a bod yr holl berchnogion cŵn yn cymryd y cyfrifoldeb o lanhau ar ôl eu ci.

"Mae baw cŵn yn dal yn broblem ddifrifol a pheryglus i lawer o gymdogaethau yng Nghymru. Trwy annog pobl i lanhau ar ôl eu ci a'i waredu'n gyfrifol, ein gobaith yw y bydd llai o faw cŵn yn ein mannau gwyrdd a bydd gennym ardaloedd glân a diogel i bawb eu mwynhau. Mae ein neges yn syml – yn y bag, yn y bin neu ewch ag ef adref!"

Bydd y cotiau cŵn ar gael trwy Lisa Broom trwy ei siop Ebay.

Llanfair Clydogau

Grŵp Cerdded Llanfair

Ar ddydd Sul, Chwefror 25ain trefnwyd taith gerdded grŵp Llanfair gan Eleri Davies, Pentre, i fynd i fyni i weld y 'Lovers' Graves', sydd tua milltir o sgwâr y pentref, ar dir Tan yr Bryn ger Gwarffordd. Dim ond adfail sydd yno erbyn hyn a gerllaw gorwedd dau fedd y cariadon, Edward Hesketh Formby ac Annie Isabella Fenton gwraig William Jones, stad Glandenyys. Priododd ef Annie pan oedd yn 65 oed ac Annie yn 28. Daeth llawer ynghyd i gerdded, oedolion a phlant gan fod diddordeb mawr yn gweld beddau'r cariadon ers pan ysgrifennodd Alan Leech lyfr am hanes y tri pherson yma. Ar lan y beddau mi wnaeth Alan ddweud tipyn o'r hanes. Erbyn hyn trist yw gweld y lle yn llawn mieri.



Galwyd y lle yma yn Fryn Cysegrfan. Am flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu claddu yma, byddai bobol y pentre yn cario cerrig gwyn a'i rhoi ar y beddau i ddangos eu parch tuag atynt.

Sefydliad y Merched

Ar nos Iau, Mawrth 22ain, cafodd pawb gyfle i ddangos eu doniau yn addurno cacennau bach - cup cakes, ar ôl gwrando a chael syniadau gan Rhonwen Thomas.

Daeth Rhonwen â'r cacennau a phopeth oedd angen i'w haddurno. Pleser oedd gweld yr ysbrydoliaeth a'r syniadau diddorol wrth edrych ar yr arddangosfa orffenedig. Diolch i Rhonwen am noson ddiddorol ac i'r merched a wnaeth baratoi lluniaeth wych fel arfer.

Clwb Cant

£20 Daniel Davies, Nant y Medd; £10 Tony Barker, Ty Coch; £5 John Davies, Bryn Castell; £5 Meinir Millar, Cysgod y Coed; £5 Maggie Hughes, Cellan; £5 Deina Hockenhull, Ty Pen Draw; £5 Dai Jones, Fferm Llanfair Fach; £5 Arwyn Evans, Fferm Llanfair Fawr.

Beth sy' nesa ?

Ebrill 6ed - Cwis yn y neuadd.
Ebrill 30ain - Cwrs Cymorth Cyntaf

Gwerthir CLONC yn

..... y siopau canlynol:

Aeron Booksellers, Aberaeron
Awen Teifi, Aberteifi
Co-op, Llambled
Cyfoes, Rhydaman
Eryl Jones, Llambled
Garej Central, Llanwnnen
Garej Checkpoint, Harford
Garej LFS Llandeilo
Garej Heol y Gogledd, Llambled
Ffab, Llandysul
Jones Bros, Llambled
Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth

Mark Lane, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Premier Siop y Gymuned, Llambled
Siop y Bont, Llanybydder
Siop y Smotyn Du
Siop y Pethe, Aberystwyth
Siop Llanygybi
Siop y Pentan, Caerfyrddin
Swyddfa Bost, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
W D Lewis a'i Fab, Pumsaint

Drefach a Llanwenog

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Andrew Jones a Caryl Davies, Glynfaes ar achlysur ei dyweddïad yn ystod y mis. Pob dymuniad da i chwi eich dau.

Symud aelwyd

Croeso cynnes i Steve a Sarah i Maes y felin Isaf – maent wedi symud o Swindon yma atom i Drefach. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Gwellhad Buan

Erbyn hyn mae John Davies, Bwlchmawr yn gwella yn dilyn llawdriniaeth ar ei galon yn Ysbyty Treforys, Abertawe.

Dathlu dau benblwydd

Penblwydd hapus i Gareth a Doreen Davies, Dolgader, Drefach, y ddau yn dathlu'r 70 o fewn pythefnos i'w gilydd; Gareth ar yr 16eg o fis Ebrill, a Doreen ar yr 2il o fis Mai. Dymuniadau gorau i chi'ch dau, a mwynhewch y dathliad dwbwl.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa â Gillian ac Emyr Jones, Meysydd a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth modryb ym mherson Mrs Karine Evans o Bennant ger Aberaeron.

Cellan



Dymunwn pob lwc i Anwen Buiten o Glwb Bowlio Llambled a fydd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth bowlio lawnt allan yn y Gemau Gymanwlad ar yr Arfordir Aur Awstralia.

Clwb Clonc

Ebrill

£25 rhif 504 :

Mrs Mair Williams,
Rhydlydan, Pumsaint, Llanwrda.

£20 rhif 59 :

Mrs Elen Davies,
1 Tynyffordd, Rhydybont,
Llanybydder.

£15 rhif 197 :

Walter Harries,
Cartref Maes-y-felin, Drefach.

£10 rhif 373 :

Elen Morgan,
Rhydyfelin, Drefach.

£10 rhif 5 :

Mrs Myfanwy Bryce,
20 Penbryn, Llambled.

£10 rhif 27 :

Elliw Grug Davies,
Maesglas, Drefach.

£5 rhif 199 :

Mrs Ray Harries,
Castle View, Llanllwni.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Mae'r Pasg ar drothwy'r drws a dyma ni yn dod at derfyn yr ail dymor yma yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. Mae wedi bod yn fis prysur iawn gyda phawb yn elwa'n fawr o wahanol brofiadau!

Cafwyd bore cyffrous yn gwrandao a chymryd rhan yn 'Sioe Ghostly Gravy' lle bu'r plant yn dysgu am hylendid bwyd yn y gegin.

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr drwy wisgo mewn cymeriad allan o stori Gymreig a chafwyd gweithgareddau i gyd-fynd gyda'r diwrnod. Cafodd y diwrnod ei drefnu gan y Cyngor Ysgol.

Braf oedd gweld pawb wedi gwisgo yn eu gwisg Gymreig neu mewn coch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Yn ystod y bore bu'r plant yn coginio Pice ar y Maen yn barod ar gyfer te ar ôl y cyngerdd. Ac yn ystod y prynhawn cafwyd cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi lle bu'r plant yn diddanu'r rhieni a ffrindiau'r ysgol. Cyhoeddodd Miss Carol Davies ganlyniadau cystadlaethau celf a llawysgrifen a llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus. Prif ran y prynhawn oedd cadeirio'r bardd buddugol.



Cafodd y seremoni ei harwain gan Mr Roderick. Beirniad y cerddi oedd Mrs Gillian Jones a braf oedd ei gweld yn traddodi'r cerddi ac yn annog y plant i ddal ati i ysgrifennu'r greadigol. Diolch iddi am roi o'i hamser i feirniadu. Cyhoeddwyd taw cerdd Elen Morgan oedd yn fuddugol a llongyfarchiadau mawr iddi hi. Enillodd Elen gadair dlws o waith Carwyn Davies. Lowri Rees gipiodd yr ail wobwr, gyda Lucy Moyes a Megan Davies yn gydradd drydydd.

Bu Clodagh Dalton, Elen Morgan, Nia Williams ac Erin Potter Jones yn cymryd rhan yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd yn Aberystwyth. Cafodd y bedair profiad arbennig yn cystadlu.

Ar ddydd Iau, Mawrth 8fed cynhaliwyd Eisteddfod Urdd cylch Llanbed. Wel dyma oedd diwrnod gwych i blant Ysgol Dyffryn Cledlyn

Dyma'r canlyniadau:-

Unawd bl. 2 ac iau - 1af Noa Potter Jones, 3ydd Mari Rees; Llefaru bl. 2 ac iau - 2il Eysyllt Jones, 3ydd Mari Rees; Unawd bl. 3 a 4 - 1af Erin Potter Jones, 2il Sioned Elias Davies 3ydd Elin Morgans; Llefaru bl. 3 a 4 - 2il Fflur Morgan, 3ydd Sioned Elias Davies; Unawd bl. 5 a 6 1af Elan Jenkins; Llefaru bl. 5 a 6 1af Elan Jenkins; Cerdd Dant bl. 2 ac iau - 2il Tirion Tomos; Cerdd Dant bl. 3 a 4 - 2il Erin Potter Jones; Cerdd Dant bl. 5 a 6 - 3ydd Swyn Tomos; 1af - Parti Unsain; 1af - Côr; 1af - Parti Llefaru.

Braf oedd cael croesawu Henoed Plwyf Llanwenog i'n plith. Bu'r plant wrthi yn diddanu'r henoed gydag eitemau gwahanol. Diolch iddynt am y lluniaeth a gafodd y plant a'r staff.

Diolch yn fawr iawn i Twm Ebbsworth am ddod a rhoi o'i amser i sgwrio gyda phlant yr ysgol am ei daith bythgofiadwy i Batagonia. Roedd y plant wedi mwynhau clywed yr holl hanesion difyr.

Bu rhai o'r plant yn cynrychioli'r ysgol drwy ganu mewn noson o Gawl a Chân yn y Grannell er mwyn dathlu dydd Gŵyl Dewi yn y gymuned.



Rydym wedi bod yn rhan o gynllun Bags2School yn ddiweddar, a braf oedd gweld fan y dyn yn llawn dop o ddillad ail law a fydd o ddefnydd i bobl llai ffodus na ni a derbyn £100 yn y broses.

Llongyfarchiadau i Sion Jones am gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth traws gwlad yng Nghaerfyrddin. Da iawn ti.

Aeth dau barti dawnio gwerin i'r Wyl Ddawns yn Ysgol Bro Teifi. Cafodd y plant brofiad gwych. Cipiodd y grŵp bl. 5 a 6 yr ail wobwr. Da iawn chi gyd.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mererid Jones o Gyngor Sir Ceredigion am ddod atom i'r ysgol i wneud gweithgareddau amrywiol addysgiadol i gyd fynd gyda'n thema am y tymor sef Ailgylchu.

Rydym wedi bod yn gwneud prosiect cyffrous iawn yn ystod y tymor gyda Ian a Beth Saunders gyda Ysgolion Arweiniol Creadigol a chwmni CISP Multiemdia. Buodd y disgyblion drwy'r ysgol yn cyfansoddi cân, recordio fideo, creu llyfryn digidol, creu a dylunio cartwns i gyd yn gysylltiedig ar thema sef pwysigrwydd ail-gylchu Mae holl blant yr ysgol wedi bod ynghlwm yn cynllunio a chreu fideo yn hyrwyddo ein côd eco. Cadwch eich llygaid allan am y fideo arbennig yma.



Mae plant blwyddyn chwech yr ysgol wedi bod yn mynychu tri diwrnod o bontio yn Ysgol Bro Pedr yn ddiweddar. Maent wedi bod mewn gwersi Dylunio a Thechnoleg, Gwyddoniaeth a Llythrennedd.

Bu llwyddiant i'r plant yn eisteddfod Rhanbarthol yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid wrth i Noa Potter Jones gipio'r wobwr gyntaf yn yr unawd bl. 2, Erin Potter Jones yn drydydd yn yr unawd bl. 3 a 4 ac Elan Jenkins yn ail yn yr Unawd bl. 5 a 6. Cipiodd merched y Parti Unsain y drydedd wobwr a'r Côr yn fuddugol. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Bydd Noa ac aelodau'r Côr yn cynrychioli'r ysgol Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar ddiwedd mis Mai yn Llanellwedd. Llongyfarchiadau i'r parti llefaru ar ei perfformiad graenus hefyd!

Cofiwch am Ras Dyffryn Cledlyn a gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal ar Fai 7fed yn yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i Ysgol Dyffryn Cledlyn i gyfarfod mis Mawrth, a chroesawyd hwy gan Mr Hywel Roderick. Cynhaliwyd cyfarfod busnes byr i ddechrau a Mrs Mary Thomas, Ffosffald yn y gadair, cyn i'r plant ddod i'r Neuadd yn barod i ddiddanu'r gymdeithas hŷn.

Cyflwynwyd yr eitemau gan Mr Roderick, a chaed mwynhad pur o wrando a chlywed y plant yn cyflwyno partion canu, llefaru, dawnio gwerin, parti offerynnol a'r ysgol gyfan yn ymuno fel côr. Braf oedd clywed bod nifer o eitemau yn mynd ymlaen i Eisteddfod Sir yr Urdd, ac wrth ddiolch yn gynnes i'r plant am brynghawn hyfryd o adloniant, dymunodd Mrs Thomas yn dda iddynt yn yr eisteddfod honno. Ymunodd yr aelodau â'r plant i ganu ein hanthem genedlaethol i orffen y prynhawn hwylus a phleserus.

Diolch yn fawr i holl staff yr ysgol am roi eu hamser i ni, - mae'r aelodau yn wir gwerthfawrogi cael dod i weld a chlywed y plant yn flynyddol.

Bydd tripliau'r haf yn cychwyn ar yr 11eg o fis Ebrill, ac mae'r daith gyntaf yn un o ddirlgelwch i'r aelodau !

C.Ff.I. Llanwenog

Ar ôl wythnos o gystadlu yn Pantomeim y sir fe enillodd y Clwb y wobwr am y set orau a'r perfformiad Technegol gorau. Cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Ysgol Dyffryn Cledlyn ar ddechrau'r mis gyda chlwb Llanddewi Brefi yn ymuno gyda ni. Noson hwylus dros ben.

Yna noson o hwyl a sbri yng Nghefn Hafod gyda Steddfod Dafarn. Diolch i'r rhai wnaeth drefnu.

Llongyfarchiadau mawr i Elin Haf Jones, aelod gweithgar o'r clwb am gael ei dewis fel Brenhines y sir am 2018-19! Edrych ymlaen i dy weld ar lwyfan Rali Felinfach mis Mehefin a mwynha'r flwyddyn sydd i ddod.

Cafwyd noson hwylus arall gyda Eysyllt a Morys, brenhines a ffarmwr ifanc y sir gyda amryw o weithgareddau a gemau. Diolch iddynt am ddod.

Buodd Sioned a Ffion Davies a Ben Lewis yn cynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymraeg a Saesneg yn ddiweddar. Cafodd Sioned y wobwr 1af fel cadeirydd yn y gystadleuaeth darllen yn y Gymraeg a daeth y tîm yn 2il. Yna cafodd Sioned 2il fel darlennydd yn y Saesneg a 3ydd fel tîm. Roedd Ben yn rhan o dîm dan 16 a ddaeth yn 3ydd. Da iawn chi gyd. Daeth Ceredigion yn 3ydd yn y cystadlaethau Cymraeg ar ddiwedd y dydd.

Fe fuodd aelodau Iau y clwb yn cystadlu yn Cwis Iau'r sir yn Pontsian ddiwedd y mis a fydd y canlyniad yn y rhifyn nesa. Pob Lwc.

Yr her nesa i rai o aelodau o'r clwb fydd i gerdded 60 milltir o arfordir Ceredigion ar ddydd Sadwrn 7fed o Ebrill. Nod y daith yw codi arian i elusen a CFFI Ceredigion. Os am noddi, plis cysylltwch â rhywun o'r clwb.

Llanbedr Pont Steffan



Sefydliad Prydeinig y Galon Cangen Llanybydder a Llambed

Ar nos Wener, 16 Chwefror cafwyd noson lwyddiannus iawn yn y Brifysgol y Drindod Dewi Sant. Ein diddanu ar y noson oedd Bois y Gilfach o ardal Mydroilyn a'r Cylch. Agorwyd y noson gan ein Llywydd y Cyngorwr Ivor Williams. Cyflwynwyd y llywydd gan ein Cadeirydd Mr Dave Smith. Ein llywydd am y noson oedd Mr Aled Lewis a diolch iddo fe am ei gyfraniad mor hael. Diolchodd Jayne Lewis, trefnydd Sefydliad Prydeinig y Galon yn yr ardal hon am y gefnogaeth mae hi yn gael gan ein pwyllgor. Talwyd y diolchiadau gan Maer y Dre, y Cyngorydd Hag Harris.

Ar ddiwedd y noson cyflwynodd y côr sic o £400 at yr elusen sef gweddill o'r arian roeddent wedi codi ar ôl cael dau diffribillwr i Mydroilyn a Derwen Gam.

Diolch yn fawr iddyn nhw.

Ar yr un noson cyflwynodd Mrs Bethan Lewis, sic o £300 i'r elusen ar ran Clwb Bowllo Llambed er cof am Mrs Sallie Jones a fuodd mor weithgar dros y Clwb Bowllo ac yn weithgar iawn dros Sefydliad Prydeinig y Galon am 33 blwyddyn. Mae'r golled yn fawr.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd John Green, Nantgwyn, Heol Llanfair ben-blwydd arbennig ganol mis Mawrth. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu yng nghanol tymor yr ŵyna!!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Mrs May Lewis, Wenllys, Stryd Newydd neu fel yr adnabyddwyd hi o gwmpas yr ardal May, Talardd, Llanwnnen. Roedd wedi treulio misoedd olaf ei bywyd yn derbyn gofal yng Nghartref Alltymynydd, Llanybydder. Bu'r angladd yn Eglwys St Lucia Llanwnnen ac fe roddwyd ei gweddillion ym mynwent Eglwys San Pedr, Llanybydder.

Urdd y Benywod Brondeifi

Mae Urdd y Benywod, Brondeifi wedi bod yn lled brysur yn yr wythnosau aeth heibio. Ar ddiwedd mis Ionawr, cawsom ein cinio blynyddol yn y Pantri pan gawsom wledd flasu fel arfer gan Delyth gyda Meinir yn gweini. Ein gŵr gwadd oedd ein gweinidog, Y parch Alun Wyn Dafis a lwyddodd i'n diddanu wrth roi i ni hanes ei yrfa o'i lencyndod hyd at y presennol. Cawsom ein diddanu wrth glywed am ei gampau ef a'i frawd ac yn enwedig am ei fenter ef a'i ffrind ysgol iddo pan lwyddasant i greu a gwerthu canwyllbrennau addurniedig i'w cyd-ddisgyblion ac athrawon hefyd! Soniodd hefyd am ambell dro trwstan a ddigwyddodd pan ddechreuodd y gwaith a baratoi bwyd Thai yn Aberaeron. Noswaith i'w chofio yn wir. Diolchwyd iddo gan Maureen. Enillwyd y gwobrau raffl gan Aerwen, Jennie a Debra.

Ar y Sul cyntaf o Chwefror cynhaliwyd yr oedfa gan aelodau o Urdd y Benywod a bu graen ar waith pob un a gymerodd ran.

Ar yr 8fed o Chwefror, cawsom gwmni Gillian Jones o Lanwenog i sôn wrthym am ei gyrfa amrywiol fel bardd, llenor, athrawes ac arolygydd ysgolion. Ar ôl iddi fwynhau ei haddysg yn Ysgolion Llanwenog ac Ysgol uwchradd Llambed, cafodd ysgoloriaeth i goleg Prifysgol Aberystwyth. Ar ôl iddi raddio gydag anrhydedd yno, bu'n dysgu yn ysgolion Preseli a Thregaron a chyn iddi orffen ei gyrfa, bu'n arolygydd ysgolion am bum mlynedd.

Yn cyd-redeg gydag hyn i gyd fe gafodd amser i briodi a magu tri o blant, ac erbyn hyn mae ganddi wyrion sy'n annwyl iawn ganddi hefyd. Er iddi bwysleisio nad yw'n berson cystadleuol, cyfaddefodd ei bod yn barddoni pan mae'r testun yn apelio. Cerdd am Nelson Mandela a enillodd iddi goron Eisteddfod Llambed yn 1994, ac fe ddaeth â'r goron ysblennydd honno i ni gael ei gweld a'i hedmygu. Yn 1996, enillodd gadair Eisteddfod Aberteifi am y gerdd Gwawr a symbylwyd gan y digwyddiad erchyll yn Ysgol Dunblane.

Hi oedd Prif Lenor yng Nghŵyl yr Haf Merched y Wawr ym Machynlleth y llynedd a'i gwobr oedd ennill Tlws Llenyddol Ann Lewis, camp a enillodd iddi glod ynghyd â balchder aelodau'r gangen leol. Pleser mawr oedd gwrando arni'n traddodi'r hanesion hyn i gyd yn rhugl a rhwydd a diymffrost, a diolchwyd iddi ar ein rhan gan Mary Jones. Darparwyd lluniaeth ar y diwedd gan Dilwen, Morfudd ac Alma ac fe enillwyd y raffl gan Pat.

Bydd gwledd o fath arall yn ein disgwyl y tro nesaf pan fyddwn yn mynd i'r Hedyn mwstard am de. Edrychwn ymlaen yn eiddgar am hynny.

Shiloh a Soar

Mi gymerodd noson Gŵyl Dewi ffurf wahanol eleni wrth i wragedd diwyd y ddwy Eglwys benderfynu cael seibiant o wneud y Cawl a gofyn i'r amryddawn Gareth Richards Goedwig weini wrth y byrddau. Mi gafwyd pryd i'w gofio gyda'r holl ddanteithion a'r addurniadau o gwmpas y Festri yn Shiloh yn briodol i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Y gŵr gwâdd oedd yr Aelod Seneddol Ben Lake ac mi gafwyd araith hynod ddiddorol ganddo o'i brofiadau o fod yn A.S ifanc yn San Steffan. Roedd eisioes wedi cael y profiad o gyfarfod â rhai o enwogion y genedl o bob plaid ac yr oedd yn amlwg fod Ben wedi llwyr ymgartrefu er fod y profiadau yn newid byd mawr iawn iddo. Teimlodd pawb yn freintiedig fod person ifanc mor dalentog a brwdfrydig yn ein cynrychioli ni yng Ngheredigion. Mynegodd y Llywydd Philip Lodwig ein gwerthfawrogiad i Ben ac am yr holl drefniadau ar gyfer noson hyfryd a erys yn hir yn y cof.

Fe ddaw tymor y Gymdeithas i ben gyda'r Trip Blynyddol ar ddydd iau, Mehefin 28 pan y byddwn yn ymweld â chanolfan Mari Jones yn y Bala a chartref Hedd Wyn yn yr Ysgwrn, Trawsfynydd. Uchafbwynt mae'n siwr i raglen lwyddiannus o dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol y ddwy Eglwys.

Pen-blwydd Arbennig

Ddiwedd mis Mawrth dathlodd Mrs Beryl Davies, Awel-deg, Heol Cambrian ei phen-blwydd yn 90 oed. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod.

Swper y Pasg yn Noddfa

Daeth nifer dda o aelodau Noddfa ynghyd ar 19 Mawrth i noson arbennig i ddathlu'r Pasg. Cyfle oedd hwn i'n hatgoffa o wir ystyr y Pasg ac ar yr un pryd i fwynhau cwmni ein gilydd mewn noson anffurfiol a chymdeithasol. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos. Yn dilyn gras mwynhawyd prif gwrs ardderchog wedi ei baratoi gan yr aelodau. Yn ystod y noson clywsom ddarlenniadau amrywiol o'r testament newydd yn ymwneud â'r Pasg. Yn dilyn hyn mwynhawyd yr ail gwrs sef dewis o 4 pwdin chwaethus oedd yn tynnu dŵr o'r dannedd. Ar ôl paned o de daeth noson hyfryd i ben gyda'r Gweinidog yn gweinyddu'r cymun.

Diolchodd ein Gweinidog i'r 8 darllenydd, i bawb oedd wedi cyfrannu tuag at y bwyd ac i Myfanwy a'r aelodau i gyd oedd wedi helpu mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y noson. Diolch hefyd i'n Gweinidog am ei chyfraniad pwysig hithau.

Tystiau pawb ein bod wedi cael noson bleserus dros ben wrth ddod at ein gilydd i ddathlu gorfoledd y Pasg.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Llunos Bowen, Clydfan, Heol y Bryn diolch yn fawr iawn am y galwadau ffôn, cardiau a rhoddion a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd.

Llanbedr Pont Steffan



Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod olaf ein tymor yn y Clwb Rygbi ar nos Iau Mawrth 8fed -wythnos yn hwy na'r arfer er mwyn osgoi gwrthdaro â dathliadau niferus Gŵyl ein Nawddsant.

Croesawodd Richard ein Llywydd, nifer sylweddol i'n dathliad. Yn eu plith oedd sawl aelod a llawer un oedd â pherthynas â'r Cylch nawr neu yn y gorffennol. Estynnwyd croeso cynnes iawn iddynt oll.

Wedi cinio gwych a ddarparwyd gyda'r graen arferol, daeth Côr Cymysg Cardi-Gân i'n diddori a'n diwallu gyda gwledd o gân a digrifwch. Dyna fu dathlu. Pawb yn mwynhau yng nghanol naws o agosatrwydd. Rhy fuan o lawer yr aeth yr amser heibio. Pwy fedr sôn am dranc ein hiaith annwyl pan fo gwledd o Gymreictod fel hyn ar gael.

Diolchwyd i'n gwsteion ac yn enwedig i'r Arweinyddes Rhian Dafydd a'r cyfeilydd amryddawn Wyn Maskell ynghyd â'r Bnr Kees Huysmanns. Gorffennwyd y noswaith gyda'r gweithgareddau swyddogol arferol. Diolchodd Richard i'r swyddogion oll am eu gwaith drwy gydol y tymor ac ni ddylid anghofio dyled pob un ohonom ni iddo ef am ein tywys mor fedrus a diffwdan trwy dymor eithriadol o bleserus a llwyddiannus.

Wedyn cyflawnodd ef ei ddyletswydd olaf. Cyflwynodd y "gavel" i afael ein llywydd nesaf sef y Bnr Eifion Williams. Wele un sy'n llwyr haeddiannol o'r anrhydedd -un a fu'n aelod ers cychwyn y Cylch Cinio ac yn ffyddlon iddo o'r dechrau. Derbyniodd yr anrhydedd gyda gair o'r galon a chymeradwyaeth wresog pawb o'r cwmni.

Noswaith a thymor pleserus yn dirwyn i ben. Mae'n siwr y bydd disgwyl eiddgar am y dechrau nesaf yn yr Hydref.

Capel Brondeifi

Gŵyl Ddewi - Ar ddydd Sul y 4ydd o Fawrth, cafwyd oedfa arbennig i ddathlu gŵyl ein nawddsant yng ngofal Teulu Ffosyffin. Yn dilyn yr oedfa roedd gwledd o gawl a danteithion wedi ei baratoi gan Delyth a'r teulu, fel arfer. Daeth dros 40 ynghyd i fwynhau diwrnod arbennig yng nghwmni ein gilydd - achlysur i'w gofio.

Sul y Mamau - Y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, oedd yn y pulpud ar yr 11eg o Fawrth - Sul y Mamau. Yna, ar y Sul canlynol, y 18fed, cafodd yr oedfa ei chanslo oherwydd y tywydd gaeafol disymwth.

Sul y Blodau - Ar y 25ain o Fawrth cafwyd oedfa dan ofal y gweinidog a phlant Brondeifi. Yn ystod yr oedfa casglwyd tuag at elusen iechyd meddwl, MIND - casgliad a gynhaliwyd dros ddau Sul (y 1af o Ebrill hefyd).

Roedd y fynwent yn edrych yn hynod o hardd ar Sul y Blodau, gyda theuluoedd a ffrindiau wedi gadael blodau i gofio am anwyliad.

Sul y Pasg a Sul Pawb Ynghyd - Bydd gwasanaeth Sul y Pasg (1af o Ebrill) am 11.15 yn y Festri, a chynhelir Sul Pawb Ynghyd am 2 o'r gloch ar yr 8fed o Ebrill, gyda Chymundeb.

Llwyddiant golff - Parhau mae llwyddiant y golffwr ifanc disglair, Bryn Thomas - un o blant Brondeifi. Yn ogystal â'i lwyddiannau unigol, roedd Bryn hefyd yn rhan o dîm

Cymru wnaeth guro Iwerddon yn ddiweddar. Bydd yn mynd allan i Fecsico i gystadlu cyn hir, a dymunwn bob llwyddiant iddo yno hefyd.

Llwyddiant Adran ac Aelwyd Llamed

Llongyfarchiadau i aelodau yr Adran a'r Aelwyd ar eu llwyddiant yn Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion. Dyma'r canlyniadau: Deuawd cerdd dant dan 12 oed 1af Betrys Llwyd Dafydd ac Alwena Owen, unawd telyn ac alaw werin dan 12 oed 2ail Alwena Owen, deuawd cerdd dant blwyddyn 10 a dan 19 oed 1af Elan Jones a Beca Jones, llefaru 19 i 25 oed 2ail Heledd Bessent, unawd sioe gerdd 1af Heledd Bessent, unawd alaw werin 2ail Heledd Bessent, grŵp llefaru dan 12 oed 1af Adran Llamed, grŵp llefaru dan 15 oed 1af Aelwyd Llamed.

Mae dyled yr aelodau yn fawr i Elin a Rhiannon am roi o'u hamser prin i'w hyfforddi heb anghofio cyfraniad Lois fel cyfeilydd. Pob lwc i bawb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelwedd.

Noddfa

Da oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i oedfa arbennig yn Noddfa ar Sul y Mamau yng ngofal yr Ysgol Sul. Yn ôl yr arfer, lluniwyd y gwasanaeth gan Janet a braf oedd gweld 29 yn cymryd rhan yn cynnwys plant, ieuenctid,

Mamau a Thadau a phawb o'r lleiaf i'r hynaf yn cyflawni eu gwaith gyda graen. Trwy gyfrwng darlenniadau o'r Beibl, gweddïau, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu cafwyd cyfle i werthfawrogi cyfraniad amhrisiadwy pob mam, i'n hatgoffa o wyrth y gwanwyn ac i ddathlu digwyddiadau rhyfeddol y Pasg.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Sioned a hi hefyd offrymodd y weddi agoriadol.

Cyhoeddwyd yr emynau gan Tudur, Rhun, Sion Ifan ac Osian Roberts a'r llefarwyr oedd Efan, Lisa, Beca, Elan, Sian Rhandir a Llinos. Mwynhawyd unawd swynol 'Cariad Mam' gan Cerys Angharad, adroddiad 'Y Dathlu' gan Sian Croesor a Helen a cherdd o waith Abiah Roderick yn disgrifio ei fam gan Osian Jones, Alwyn a Rob. Gweddiwyd gan Delyth, Alwena a Iona a chyflwynwyd sgwrs gan Ffion a Gwenllian yn seiliedig ar y Pasg gyda chyffyrddiadau ysgafn ond â neges bwysig hefyd. Pleser oedd gwrandao ar y plant lleiaf sef Esther, Lynwen a Cai yn adrodd yn unigol a Trystan Bryn, Trystan Wyn ac Ifan yn canu pennill yr un ac yn amlwg wrth eu bodd yn cymryd rhan. Hefyd bu Janet yn sôn wrth y plant pa mor bwysig yw dangos eu gwerthfawrogiad i Mam bob dydd o'r flwyddyn nid yn unig ar Sul y Mamau. Soniodd mai gair bach yw diolch ond mae'n golygu sut gymaint. Ymatebodd y plant yn frwdfrydig i'w chwestiynau

gan ddod â gwên i wynebâu'r gynulleidfa. Yna bu pawb yn offrymu gweddi fach oedd yn diolch i Dduw am bopeth.

I orffen y gwasanaeth cyflwynwyd datganiad hyfryd gan y merched uwchradd o emyn yn dathlu'r atgyfodiad. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth Morgans Phillips a chyfeiliwyd i'r plant gan Alwena a Janet.

Soniodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos mai braint arbennig oedd talu diolch haeddiannol i'r plant, y bobol ifanc a'r oedolion am eu cyfraniadau ardderchog, i'r cyfeilyddion am eu gwasanaeth, i John Elfyn, Derek a Roy am baratoi'r llwyfan ac yn olaf ond nid y lleiaf i Janet am ei gwaith manwl a diwyd ac am gynnwys eitemau newydd unwaith eto ynghyd ag ambell i wirionedd oedd yn ein herio fel cynulleidfa.

Wrth droi tuag adref roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth o ddoniau arbennig y plant a'r bobol ifanc ac yn ddiolchgar am y cyfle i gyd-addoli â nhw mewn oedfa fendigedig.

Bydd seibiant nawr i'r plant am ychydig wythnosau a bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau nos Wener Ebrill 20 fed am 4 o'r gloch.

Estynnir llongyfarchiadau i Cerys Angharad, Sioned ac Elan sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion fel unigolion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni ynghyd â phawb sydd yn aelodau o bartion llefaru yr Adran a'r Aelwyd. Pob lwc i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Nos Fawrth y 13eg o Fawrth daeth criw o'r aelodau ynghyd i noson ffilm. Treuliwyd orig ddiddorol a hwyliog dros ben yn gwyllo ffilm gomedi ac ar yr un pryd yn mwynhau popcorn a ffrwythau. Diolch i Geinor Medi am ei gwaith gyda'r offer technegol ac i Janet am fod yn gyfrifol am y lluniaeth. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd cyfarfod olaf y tymor wedi cymryd lle yng ngofal Meriel, swyddog cynorthwyol yr Urdd yng Ngheredigion. Diolch yn fawr i'r aelodau am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch i'r Aelwyd yn ystod y tymor ac i'r rhieni am bob cefnogaeth.

Anterliwt gyfoes newydd sbon

Bydd Cwmni Morlan o Aberystwyth yn cyflwyno anterliwt gyfoes sef DONALD BRICIT a Stryd y Domen am 7 o'r gloch ar nos Fercher Ebrill 18 yn Neuadd Sector Iau Ysgol Bro Pedr. Rhoddwyd her i saith o feirdd i greu yr anterliwt sy'n procio a dychanu. Yn eu plith roedd Eurig Salisbury, Hywel Griffiths,

Llanbedr Pont Steffan

Sarah Down-Roberts ac Arwel Rocet Jones. Ceir 12 yn y cast a bydd yn sioe llawn direidi a hwyl. Dewch i'w weld ac i gefnogi ein hymdreh gyntaf i ddechrau cronfa ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

Trefnir y digwyddiad gan Ferched y Wawr a Plaid Cymru Llanbed. Bydd tocynnau ar gael o Siop y Smotyn Du, Ann Morgan- 422413 neu Rhys Bebb 423466 pris £5.

Eisteddfod Gylch.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd cylch Llambed yn Ysgol Bro Pedr a bu'r diwrnod yn un llwyddiannus iawn. Trefnwyd yr Wyl eleni gan Ysgol Carreg Hirfaen. Llywyddion yr Eisteddfod oedd Glenys Harrison cyn Brifathrawes Ysgol Coedmor a Marjery Williams cyn Brifathrawes Ffarmers a Llanycrwys. Cyflwynodd y ddwy ohonynt roddion hael tuag at yr Eisteddfod ac areithiau diddorol a difyr iawn.

Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd diolchodd cadeirydd y pwyllgor cylch i Bennaeth Ysgol Carreg Hirfaen Aled Evans, y staff a'r rhieni am eu gwaith yn stiwardio a pharatoi bwyd, ac yn enwedig Elin Jones am ei threfniadau trylwyr ymlaen llaw a'i chyfraniad difflino yn ystod y dydd, i'r Llywyddion am eu haelioni, ac i'r beirniaid ynghyd â'r cyfeilyddion Eirian Jones a Lois Williams am eu gwasanaeth. Talodd deyrnged hefyd i Bennaeth Ysgol Bro Pedr a'r staff am bob cydweithrediad, i arweinyddion y llwyfan, i'r rhai oedd yng ngofal y sain, i Weinidog a swyddogion Brondeifi am ddefnydd o'r capel a'r festri ar gyfer y rhagbrofion, Sheila Pugh, cadeirydd y pwyllgor cylch ac i bawb arall oedd wedi cynorthwyo mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod.

Cymdeithas Hanes Llambed

Traddodwyd y ddarlith Gymraeg flynyddol yng nghyfarfod mis Mawrth, gyda chynulleidfada wedi dod ynghyd, a darparwyd gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg gan Sian Jones. Arwel Jones o Giliau Aeron oedd y siaradwr gwadd, ef yn ysgrifennydd pwyllgor dathlu dau-ganmlwyddiant Cymru -Ohio. Ar y 1af o fis Ebrill 1818, ymfudodd chwech teulu o Bennant, Ceredigion i'r Unol Daleithiau, gadael Aberaeron am Lerpwl, a gwynebu mordaith o dri mis cyn cyrraedd Baltimore. Yn ystod y blynyddol nesaf, dilynwyd hwy gan tua 3,000 arall, y cyfan yn gadael 16 o bentrefi bach yn ardal y Mynydd Bach, a sefydlu eu cartrefi newydd yn nhalaith Ohio.

Pam gadael Ceredigion? Roedd dechrau'r bedwaredd -ganrif -ar-bymtheg yn gyfnod anodd iawn i'r bobl lleol. Roedd rhif y

boblogaeth yn tyfu'n gyflym; y rhyfeloedd yn erbyn Ffrainc yn achosi trethi i godi'n sylweddol; sawl blwyddyn o gynhaeafau gwael; 5,000 cyfer o dir comin yn cael ei amgau ar y Mynydd Bach, - hyn yn amddifadu'r brodorion o bori'r tir, a chynaeafu mawn ar gyfer y gaeaf. Roedd bywyd yn anodd ac yn heriol. Gwelwyd miloedd ar y cei yn Aberaeron yn ffarwelio â'u teuluoedd a'u ffrindiau, a'r tebygolrwydd na fyddent yn gweld ei gilydd mwyach.

Byddai negeseuon yn dod yn ôl ymhen amser, bod tir ffrwythlon yn y wlad newydd, yn galluogi tyfu llysiau a ffrwythau niferus. Roedd yn rhaid clirio'r coedwigoedd, - ond hyn yn darparu coed ar gyfer cabanau a ddeuai'n gartrefi clud. Dros amser codwyd 24 o gapeli Cymreig yn ardal Oakhill. Aeth disgynyddion yr ymfudwyr cyntaf ymlaen i fod yn flaenllaw yn y gymdeithas; yn sefydlu busnes prynu a gwerthu gwartheg, rhedeg cyfres o dai bwyta, a phedair o ferched - y chwiorydd Edwards, yn enwog drwy'r wlad. Daeth Daniel Morgan yn faer Cleveland, ac ef fu'n gyfrifol am agor y ffordd i fyfyrwyr tywyll eu croen i astudio am raddau yn y byd meddygol.

Bydd yna wythnos o weithgareddau yn ardal Aberaeron a Chilcennin ddiwedd mis Mehefin i gofio am yr ymfudo yma, a disgwylir nifer o Americanwyr - disgynyddion y rhai adawodd yr ardal, i fod yn bresennol. Cyhoeddir llyfr, nifer o'r erthyglau wedi eu hysgrifennu gan y disgynyddion yma, a bydd ysgolion yr ardal yn cymeryd rhan yn y gweithgareddau a fydd yn ail-adrodd hanes y fenter fawr.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 17eg, pan fydd Janice Richards yn rhoi hanes 'Tu ôl i'r Drws Du', - sef ei phrofiadau yn gweithio yn rhif 10 Stryd Downing.

Amgueddfa Llambed

Mae'r Amgueddfa wedi ail-agor erbyn hyn, a gobeithir y gwnaiff ddarllenwyr Clonc droi i mewn i weld yr arddangosiadau newydd. Daw'r gyfres o gofnodi'r Rhyfel Mawr i ben eleni, gyda chasgliad diddorol o'r cyfnod yna. A hithau'n gan-mlwyddiant menywod yn cael pleidleisio, ceir hanes y Suffragists a'r Suffragets. Mae yna gasgliad o luniau 'na sydd wedi gweld golau dydd ers tua chanrif, hanes Ffair Dalis; cabinet yn llawn o waith llaw un gwraig o Llambed; hanes ardal Bro Silian, a hanes un teulu o Llambed a lwyddodd i gyflawni llawer iawn yn ystod eu gyrfaedd.

I weld a dysgu mwy amdanynt, trowch i mewn, - bydd yna groeso cynnes gan y gwirfoddolwyr ar ddyletswydd. Mae'r oriau agor wedi newid ychydig eleni: Dydd Mawrth



Cyflwynwyd y bêl a ddefnyddiwyd yn y gêm derfynol Pro 14 rhwng y Scarlets a Munster i Brynmor James, Clwb Rygbi Llambed gan Jones & Evans Plasterers. Bydd y bêl yma yn cael ei harddangos yn barhaol yn y clwb rygbi.



Gorymdaith Gŵyl Dewi

Diolch i bawb er gwaetha'r tywydd oer am fentro allan a gorymdeithio ar hyd strydoedd Llambed. Cawsom bleser o weld cymaint wedi dod ac yn cario baneri amrywiol. Llongyfarchiadau i'r parlwr pinco ar ennill y Darian, rhodd Mr Chris Thomas am y ffenest orau. Llongyfarchiadau i bawb arall; roedd y Maer a'r Faeres wedi cael trafferth beirniadu ac yn canmol pawb ar eu hymdrechion. Diolch i holl noddwyr yr orymdaith hefyd.

Cawsom gyfarfod hyfryd i ddilyn yn Neuadd Fictoria gyda phaned i dwymo ac areithiau gan Y Maer Hag Harris a'n hactores leol Gillian Elisa. Hefyd cafwyd caneuon gan rhai o Gôr Cwmann a phawb ar y cyd yn canu Hen Wlad fy Nhadau. Flwyddyn Nesa bydd yr Orymdaith ar y dydd Sadwrn sef Mawrth 2il gan fod Eisteddfodau yn yr Ysgolion ar y 1af.

Bydd pwyllgor cloriannu yn cael ei gynnal am 7 ar nos Lun, Ebrill 16 yn Nhafarn Llain y Castell, Heol y Bryn. Dewch i gynnig eich syniadau a threfnu ar gyfer y gig ar Fehefin 16 gyda Bryn Fôn a'r band.

a Dydd Iau, 10 - 4; Dydd Mercher a Dydd Sadwrn, 11 - 2.

Te prynhawn Merched y Wawr, Llambed i Ddathlu Gŵyl Dewi yn yr Hedyn Mwstard ar Fawrth 13.

Croesawyd pawb yn gynnes gan ein llywydd Morwen Thomas a chanwyd Penblwydd Hapus i Mary Davies. Mwynhawyd te a danteithion bendigedig wedi eu gweini gan Liz a staff yr Hedyn Mwstard ac wrth gwrw cafwyd pawb gyfle i sgwrsio a mwynhau cymdeithasu hyfryd wrth y byrddau.

Wedi i bawb gael eu digonni cafwyd gwledd arall yng nghwmni

un o ieuenctid Llambed.

Croesawyd Ifan Meredith (wyr Morwen) i'n diddori. Mewn sgwrs ddifyr a chyflwyniad ar wal fideo, dywedodd ei hanes gan arddangos llawer o grefftau a wnaethpwyd ganddo a'i ddiddordebau amrywiol. Enillodd lawer o fedalau a gwobrau o amrywiol Eisteddfodau. Aeth ymlaen i ganu ac adrodd yn arbennig iawn. Cafwyd cyflwyniad proffesiynol iawn ganddo. Diolchwyd iddo gan Mary Davies a chyflwynodd Wy Pasg iddo'n rhodd. Diolchodd hefyd i Liz a'r staff am y te ardderchog.

Enillwyd y raffl gan Gillian Jones.

Llanbed

Cynhelir y cyfarfod nesa ar 9fed o fis Ebrill pan fydd Noson ysgafn yng nghwmni criw Sarn Helen.

Capel Noddfa

Mwynhawyd Swper y Pasg gan deulu'r eglwys yng Nghapel Noddfa ar nos Lun 19 Mawrth. Cawsom swper arbennig wedi'i ddarparu gan y merched gyda threfniadau arbennig gan Myfanwy Brice a threfnwyd y darlleniadau a'r myfyrdodau gan ein Gweinidog i'n hatgoffa o stori'r Pasg.

Cawsom gyfranogi o'r Cymun hefyd cyn troi am adref wedi mwynhau'r achlysur.

Yr aelod ifancaf yn y swper oedd Tryfan Samuel Phillips sy'n aelod ffyddlon yn ein hoedfaoedd. Bydd Oedfa Deulu am 5 ar nos Sul Ebrill 22 yng ngofal mam Tryfan sef Mrs Delyth Morgans Phillips. Dewch yn llw.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Edward Davies, Llys Helyg, Rhodfa Glynhebog ar gael ei benodi yn bennaeth Ysgol Rhys Prichard, Llanymddyfri. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd newydd.

Gohebiaeth

Ar Nos Fawrth y 27ain o Fawrth yng Nghaffi Alys, Machynlleth, cynhaliwyd lansiad cyntaf y gyfrol 'Llestri'r Dylluan' gan Bethan Gwanas.

Addasiad Cymraeg o 'The Owl Service' gan Alan Garner yw Llestri'r Dylluan. Mae'r gyfrol wedi ennill gwobrau ac yn cael ei hadnabod fel campwaith. Mae dros 600,000 o gopiau wedi eu gwerthu yn fyd-eang ers y cyhoeddiad cyntaf ym 1967.

Mae'r nofel wedi'i ysbrydoli gan stori Blodeuwedd a gan dirlun Llanydawddwy. Roedd y lansiad yn gyfle i drigolion yr ardal a ffans y llyfr i ddod ynghyd i rannu atgofion a chlywed sut aeth Bethan Gwanas ati i addasu'r nofel i'r Gymraeg.

Roedd rhai 'ffans' wedi teithio o'r Fenni a'r Amwythig ar gyfer y lansiad, sy'n profi pa mor bwerus yw'r gyfrol.

"Dwi'n cofio darllen y llyfr i fi pan o'n i'n ifanc ac o'n i'n meddwl ei bod hi'n 'sensational', yn torri tir newydd. Mae gen i bump o blant ac mae nhw werth eu bodd gyda'r llyfr hefyd, ac mae'n wych bod hi bellach ar gael yn y Gymraeg!" Myfanwy Alexander.

Mae Llestri'r Dylluan yn addas i ddarllenwyr 14+ ac oediolion ac ar gael am £7.99 ar www.atebol.com ac yn eich siop leol.

Llanybydder

Ymdeol

Ar ddiwedd mis Ebrill bydd Heather Jones a Mattie James yn ymdeol o Fferyllfa 'WELL' yn Llanybydder. Mae Heather wedi bod yno am 15 mlynedd a Mattie 34 mlynedd- tipyn o amser rhwng y ddwy. Byddwn yn gweld eich eisiau tu ôl i'r cownter. Ar ran pawb Ymdeoliad hapus i chi eich dwy a iechyd da i'r dyfodol.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant flynyddol Aberduar, yn y Ffestri ar nos Fercher, Mawrth 14eg 2018. Daeth llond y Ffestri ynghyd i gymdeithasu ac i gefnogi'r noson, a brofodd i fod fel arfer, yn achlysur llwyddiannus dros ben.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan Dewi Davies, gan groesawu pawb yn gynnes iawn i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendr yr Eglwys.



Cawsom y fraint o groesawu ffrind agos i ni yn Aberduar, sef ein cyn-weinidog Y Parch Wynn Vittle, Llangynnwr, yn ôl i'n plith i agor Arwerthiant blynyddol y Chwiorydd eleni. Daeth atom ni gyntaf fel gweinidog wedi cyfnod bendithiol yn gwasanaethu fel Trefnydd Cymru, Cymorth Cristnogol, a bu ef ai ddiweddar annwyl wraig Nia, gyda ni drwy gyfnod cynhyrfus yn 1990au pan gafodd yr hen festri, a'r tŷ Capel ei dymchwel, a chodi'r festri newydd yn ei lle, ac yna mynd ati i'w defnyddio.

Ac nid ond yn y gorffennol, ond yn gyson o hyd fe ddaw Wynn i wasanaethu yn yr oedfaon ar y Sul, ac mewn angladdau, ac rydym fel cynulleidfya yn gwerthfawrogi ei gyfraniad o hyd i fywyd yr Eglwys fel hyn.

Esboniodd Wynn, ei bod yn fraint ac anrhydedd i agor yr Arwerthiant a gweld hen wynebun unwaith eto, ac am ei atgofion hapus tra ei fod gyda ni yn Aberduar.

Diolchodd Dewi i'r Parch Wynn Vittle am ei rodd hael, ac i bawb am gydweithio gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant y noson.

Fel arwydd o werthfawrogiad, cyflwynodd Mrs Ogwen Evans [Trysorydd y Chwiorydd] anrheg i'r Parch Wynn Vittle, ar ran y Chwiorydd.

Diolch

Dymuna Dewi Glynteg Llanybydder ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar adeg ei benblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch i bawb ohonoch.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sioned Fflur Davies a Ffion Mai Davies, Rhydybont am fod yn rhan o dîm ddaeth yn ail yn y Darllen Cymraeg dan 14 oed yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru yn Llanelwedd Ddydd Sadwrn, 24 Mawrth. Cafodd Sioned gydradd gyntaf fel Cadeirydd. Roedd Sioned hefyd yn rhan o'r Tîm Darllen Saesneg ddaeth yn drydydd.

Pob dymuniad da i Sioned yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai wedi iddi ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Unawd Piano blwyddyn 7-9 yn yr Ŵyl Offerynnol Ranbarthol yn Aberystwyth.



The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologfn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
ac yn golchi *duvets*.
Sychlanhau ar y safle.




Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



2 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan
T: 01570 423884 S: 07900 370537
e.dawnsemporium@gmail.com [f: dawnswelshgifts](https://www.facebook.com/dawnswelshgifts)

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbedr
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynghor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

CYTUNDEB ACADEMI

Mae bowliwr cyflym Pen-y-bont-ar-Ogwr Tomos Jones o Lamed, wedi arwyddo cytundeb academi gyda Clwb Criced Morgannwg gogyfer y tymor criced 2018.

Ymunodd y bowliwr agoriadol o Lamed â chlwb Uwch Gynghrair Pen-y-bont-ar-Ogwr ddau dymor yn ôl bellach o glwb Cynghrair De Cymru Clwb Criced Bronwydd. Sialens anferthol iddo, ond symudiad a ysgogwyd gan ei berthynas â chyn hyfforddwr Penybont Darren Thomas, ac mi gafodd Tomos dymor llwyddiannus iawn yn 2017.

Yn ystod un penwythnos cofiadwy ym mis Awst, mi wnaeth y bowliwr cyflym ifanc ddisgleirio i Benybont mewn gêm gynghrair yn Uwch Gynghrair De Cymru Thomas Carroll, ac yna i dîm Siroedd Hŷn Cymru mewn gêm Bencampwriaeth Unicorns yn erbyn Swydd Henffordd yn Eastnor. Wrth i Benybont guro Ynysgerwn o 8 wiced ar Gaeau Trecelyn, cafodd Tomos ei ffigurau bowlio gorau hyd yn hyn yn yr Uwch Gynghrair sef 7.5-2-12-4; yna'r diwrnod canlynol tra'n cynrychioli tîm Siroedd Hŷn Cymru mi wnaeth serenni fel batiwr i gychwyn. Gyda Chymru mewn dyfroedd dyfnion ar 151-9, rhannodd Tomos bartneriaeth o 91 rhediad am y wiced olaf gyda chwaraewr Lloegr dan 19 oed Prem Sisodia (Clwb Criced Caerdydd). Yna, pan ddaeth yn amser iddo fowlio, cipiodd Tomos ddau wiced gynnar mewn ymdrech agoriadol danllyd 8-2-19-2.

Mae'n amlwg i Forgannwg nodi'r perfformiadau yma gan iddynt gynnig cytundeb academi iddo ym mis Medi 2017. Mae'r cytundebau yma'n cael eu hystyried yn agoriad pwysig dros ben i'r gêm broffesiynol, fel y mae Aneurin Donald (Clwb Criced y Mwmbwls), Lukas Carey (Clwb Criced Pontarddulais), a Kiran Carlsson (Clwb Criced Caerdydd) wedi profi'n ddiweddar.

Yn ôl John Morgan, Cadeirydd Clwb Criced Pen-y-bont-ar-Ogwr, "Mae Clwb Criced Penybont yn hynod o falch o Tomos Jones a'i deulu cefnogol." Dywedodd cyn chwaraewr Morgannwg a thîm 'A' Lloegr Darren Thomas, sydd wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad y bowliwr cyflym ifanc o Lamed dros y blynyddoedd, ei fod yn hapus iawn drosto – "Mae Tomos yn llawn haeddu'r cytundeb academi gan Forgannwg. Mae wedi gweithio'n galed iawn ar ei gêm ac mae'n fachgen grêt i'w hyfforddi."

Ac mi ddywedodd Richard Almond, Rheolwr Datblygu Chwaraewyr Clwb Criced Morgannwg – "Mi gafodd Tomos dymor eithriadol yn 2017, ac mae'n llwyr haeddu'r cynnig yma. 'Rydym yn edrych ymlaen i gydweithio ag ef, gan fod o gymorth iddo yn ei ddatblygiad fel cricedwr ac fel person."

Fel rhan o'r paratodau ar gyfer tymor 2018 buodd aelodau Academi Clwb Criced Morgannwg a'u hyfforddwyr Richard Almond, Dave Harrison a Adrian Shaw yn treulio 10 diwrnod yng Ngholeg Hilton ger Durban, Dê Affrica rhwng Chwefror 14eg-25ain. Profiad anhygoel i Tomos a'i gyd aelodau o'r academi. Pob lwc iddo yn ystod tymor criced 2018.



O'r Cynghorau Bro



Cyngor Cymuned Llanybydder

Croesawyd Mrs Hazel Priddey o Rydcymerau i'r Cyngor am y tro cyntaf. Pob lwc iddi.

Nid yw Clwb Pêl-droed Ieuenctid Llanybydder yn gallu chwarae ar hyn o bryd oherwydd bod gwaith yn cael ei wneud yn Ysgol y Dolau. Mae ein Cyngor ni wedi cytuno y gallant chwarae yn y Parc. Wrth gwrs, mae tipyn o drefniadau i'w gwneud cyn y bydd hyn yn digwydd.

Mae ein Cyngor wedi derbyn cyfarwyddiadau gan BT ynglŷn â'r 3 bocs ffôn coch. Bydd S Maskelyne yn eu cael yn barod. Nid ydym wedi penderfynu eto beth fydd yn cael ei roi ynddynt.

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Chwefror 2018 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

PLISMONA - Cafwyd ymddiheuriadau gan Shanice Thomas ac Eleri Morgan. Soniwyd hefyd os oedd yna unrhyw fater angen ei drafod ymhellach i'r Clerc ei anfon ebost atynt.

Y CAE CHWARAE - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Yr oedd Eric Davies â Dewi Davies wedi ymweld â John Davies ers y cyfarfod diwethaf ac wedi cytuno i ddechrau ar y gwaith yn y gwanwyn unwaith y byddai'r tywydd wedi sychu. Yr oedd angen iddynt ymweld â John Davies eto i arwyddo ac am Dystysgrif Yswiriant cyn dechrau â'r gwaith.

Mae angen i'r Clerc gydnabod y chwe chais arall a diolch am ymgeisio ond bod y ceisiadau hynny heb fod yn llwyddiannus.

Y GINIO FLYNYDDOL - Cynhaliwyd y ginio yn y Belle Vue ar 12 Ionawr am 8yh.

UN LLAIS CYMRU - Byddai Cyfarfod Sir Caerfyrddin yn cael ei gynnal ar 27 Chwefror yn Yr Hen Ficerdy, Sgwar Neuadd y Dref, Llanelli am 7yh.

MYNYDDOEDD CAMBRIAN - Diwrnod Agored ar 14 Chwefror yn y Forest Arms Brechfa o 10yb – 12yp. Bydd Dewi Davies yn mynychu'r Cyfarfod.

SBWRIEL - Yr oedd llawer o sbwriel wedi crynhoi ar ochr yr hewl o Gaerfyrddin i Lamed a mawr angen ei gasglu.

CEISIADAU - Penderfynwyd cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru; Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Ffenest Orau



Panacea - y Parlwr Pinco oedd enillydd y ffenest orau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi a drefnwyd gan y Cyngor Tref fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi.

Yn y llun mae Anthea Jones, y perchennog ac Anita Evans gyda disgyblion Ysgol Bro Pedr a ddyluniodd ac addurnodd y ffenest.

Ysgol Bro Pedr

Cafwyd diwrnod hynod lwyddiannus wrth i bob disgybl o'r ysgol berfformio drwy gyfrwng y Gymraeg i ddathlu dydd Gŵyl ein nawddsant. Diolch o galon i holl staff yr ysgol am eu paratoadau trylwyr ac yn arbennig i Sandra Davies am eu gwaith yn cyfeilio ac i Wyn John am gydlyn. Yn Eisteddfod y Cyfnod Sylfaen, Côr Dewi gyda Molly yn arwain ddaeth yn gyntaf, yn ail Côr Pedr gyda Rhys yn arwain ac yn drydydd Côr Steffan gyda Harri'n arwain.



Bu disgyblion blwyddyn 2 yn brysur yn ysgrifennu storïau ac fe gadeiriwyd y canlynol –



Storïau Cymraeg 1af Callum Fisher 2ail Joshua Drury 3ydd Carys Wall
Storïau Saesneg 1af Molly Jones 2ail Harry Condon 3ydd Arlo Moss.
Derbyniodd y Capteiniaid rubanau gan Mrs Jane Wyn a Mrs Gill Hearne ac ar ddiwedd Eisteddfod y Cyfnod Sylfaen, tŷ Dewi oedd ar y blaen gyda 50 o farciau yn 2ail Steffan gyda 48 o farciau a Pedr yn 3ydd gyda 45 o farciau-agos iawn felly.



Roedd y prynhawn hefyd yn llawn bwrlwm gyda Chôr Pedr yn ennill yn Eisteddfod yr Adran Iau gyda Ceris yn arwain, Dewi yn ail gyda Michael yn arwain a Steffan yn drydydd gyda Weronika yn arwain. Dyma fuddugwyr seremoni Cadierio'r adran Iau am ysgrifennu storïau.



Blwyddyn 3 Cymraeg – 1af Fflur 2ail Hari 3ydd Oskar
Blwyddyn 2 Saesneg – 1af Julia 2ail Henri 3ydd Erin



Blwyddyn 4 Cymraeg – 1af Lowri 2ail Charlie 3ydd Sofie
Blwyddyn 4 Saesneg – 1af Olivia 2ail Kyna 3ydd Arthur



Blwyddyn 5 Cymraeg – 1af Lucy 2ail Caitlin 3ydd Sion-Ifan
Blwyddyn 5 Saesneg – 1af Zoe 2ail Erin 3ydd Isaac
Blwyddyn 6 Cymraeg – 1af Regan 2ail Ceris 3ydd Sara
Blwyddyn 6 Saesneg – 1af Elizabeth 2ail Kinga 3ydd Mabli a Lizzie.

Tŷ Dewi oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth dawnio disgo [llun isod] ond ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd Capteiniaid Dewi oedd yn dathlu'r fuddugoliaeth ar ôl ennill Eisteddfod y campws cynradd gyda 169 o farciau, Pedr yn ail gyda 134 o farciau a Dewi'n drydydd gyda 105 o farciau.



Da iawn bawb a diolch o galon i'n beirniaid am y dydd sef Gill Hearne ac hefyd i Wendy Thomas am feirniadu'r Celf, Lois Williams am feirniadu'r Storïau Cymraeg a Dilwen Roderick, Morfudd Slaymaker a Nona Williams am feirniadu'r storïau Saesneg.



Côr Pedr yn ennill yn Eisteddfod yr Adran Iau gyda Ceris yn arwain, Dewi yn ail gyda Michael yn arwain, a Steffan yn drydydd gyda Weronika yn arwain.

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd a diolch i bob aelod o staff sydd wedi cynorthwyo mewn unrhyw fodd yn hyfforddi'r plant - gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn. Dyma'r canlyniadau. Unawd bl 2 ac iau - Tia Gilbert (agos i'r llwyfan) Llefaru unigol bl 5 a 6 - 3ydd Cerys Angharad Jones Alaw Werin bl 6 ac iau - 3ydd Cerys Angharad Jones Llefaru unigol bl 5 a 6 i ddysgwyr - 2il Nikola Jablonska 3 ydd Kuba Michalski a Niamh o Sullivan Llefaru unigol bl 2 ac iau - 1af Seirian Cutler 2ail Molly Jones 3ydd Lily Edgell Unawd Cerdd Dant bl 5 a 6 - 2il Cerys Angharad Jones Llefaru unigol bl 7,8,9 - 1af Gruffydd Llwyd Dafydd, 2il Ifan Meredith 3ydd Sioned Davies Unawd merched bl 7,8,9 - 1af Sioned Davies Llefaru unigol bl 10 ac o dan 19 oed - 1af Elan Jones Grŵp llefaru i ddysgwyr bl 6 ac iau - 1af Ysgol Bro Pedr Grŵp llefaru bl 6 ac iau - 3 ydd Ysgol Bro Pedr Alaw werin bl 7,8 a 9 - 1af Sioned Davies Monolog bl 10-19 - 1af Twm Ebbsworth Unawd Cerdd Dant bl 10 ac o dan 19 - 1af Elan Jones Llefaru unigol i ddysgwyr bl 3 a 4 - 1af Kyna Logan 2ail Arthur Williams Parti unsain bl 6 ac iau i ddysgwyr - 1af Ysgol Bro Pedr Alaw werin bl 10 ac o dan 19 oed - 1af Elan Jones Parti unsain bl 6 ac iau - 2ail Ysgol Bro Pedr porffor. 3ydd Ysgol Bro Pedr melyn Ensemble bl 6 ac iau 1af Ensemble bl 7,8,9 1af, Ensemble bl 10 ac o dan 19 oed 1af.

Llongyfarchiadau i ddawnsuwr Bro Pedr a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir a diolch yn fawr iawn i Mrs Sally Saunders am eu hyfforddi Tîm dawnsio aml-gyfrwng - 2ail. Gwnaeth Darcey Lambert a Mabli Cutler yn dda iawn hefyd yn y dawnsio disgo unigol - daliwch ati. Llongyfarchiadau i ddisgyblion o'r ysgol a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Offerynnol Sirol yr Urdd

Unawd Telyn bl 6 ac iau - Cerys Angharad Jones 1af Unawd Piano bl 7,8 a 9 - Sioned Fflur Davies 1af, Unawd Piano bl 10 ac o dan 19 oed - Elan Jones 2il. Gwnaeth Cerddorfa ac Ensemble yr ysgol yn dda iawn hefyd a diolch o galon i Mrs Helen Williams a Mrs Pauline Jones am eu cymorth.

Cafwyd cryn lwyddiant hefyd yn yr Eisteddfod Sir yn y cystadlaethau canu a llefaru. Da iawn i:-

Llefaru bl 7,8,9 - Gruffydd Llwyd Dafydd 3ydd. Llefaru bl 10 ac o dan 19 - Elan Jones 1af, Alaw Werin 2ail, Cerdd Dant 3ydd. Monolog - Twm Ebbsworth 1af. Ensemble iau - Sioned Davies, Lowri Fflur, Hafwen Davies, Nia Morgans, Lois Jones, -2il. Ensemble hŷn - Elin Davies, Lisa Evans, Beca Roberts, Elan Jones -2il. Llefaru i ddysgwyr bl. 2 ac iau- Seirian Cutler 1af Llefaru i ddysgwyr bl 3 a 4 - Kyna Logan 2il. Grŵp llefaru i ddysgwyr - 2il Molly, Weronika, Nikola, Alma, Kyna, Kinga, Mabli, Lizzie. Parti Unsain i ddysgwyr - 2il. Ensemble lleisiol bl 6 ac iau - Cerys, Grace, Lucy, Sara, Ceris, Lexie - 3ydd.

Llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion o'r ysgol a oedd ym mhartion llefaru ac unsain adran ac aelwyd Llambod. Dymuniadau gorau i bawb sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwedd Mai.

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn mwynhau gweithgareddau yn yr Ŵyl Chwaraeon a gynhaliwyd ar gampws yr ysgol i ddathlu Sport Relief a Gemau'r Gymanwlad.

Cafwyd diwrnod o wisgo dillad lliwiau sy'n cynrychioli Cymru er mwyn codi arian tuag at daith Siencyn Jones, disgybl o'r chweched dosbarth i Batagonia gyda'r Urdd. Diolch i bawb a gyfrannodd gacennau a llwyddwyd i gasglu swm sylweddol iawn o £920. Gwnaeth disgybl o flwyddyn 6 sef Michael Mc Donagh ysgrifennu at gwmni Marks and Spencer yn gofidio am y defnydd o blastig yn eu cynnyrch. Derbyniodd Michael lythyr oddi-wrthynt yn nodi sut yr oeddent yn ceisio datrys y broblem - diolch am godi ymwybyddiaeth Michael. Bydd nifer o rieni'r ysgol yn derbyn gwersi Cymraeg yn yr ysgol o hyn tan yr haf a rheiny am ddim - os ydych yn gwybod am unrhyw un sydd â diddordeb ymuno yna cysylltwch â'r ysgol.

Bu disgyblion y dosbarth derbyn yn mwynhau gweithdy hynod ddiddorol



gyda Rachel, Faaiza ac Aneurin Karadog a hyfryd oedd cael croesawu ddisgyblion Ysgol y Dderi atom hefyd.

Yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Dair Sir bu nifer o'n disgyblion yn llwyddiannus gyda Cai Allan a Liam Regan yn gwneud yn arbennig o dda - daliwch ati bois. Daeth Miss Sarah a'r Parch Presdee atom i gyflwyno gwasanaeth a hyfryd oedd cael dysgu negeseuon moesol drwy ffurfiau gwledol.



Gwnaeth y Pwyllgor Cymreictod gyfarfod a thrafod gweithgareddau a fu a'r rhai sydd ar y gweill a bu rhai o'r aelodau yn croesawu'r ymwelwyr o Ffrainc a ddaeth atom - diolch yn arbennig i Cerys Angharad Jones o'r campws cynradd am eu datganiad swynol ar y Delyn yn ystod yr ymweliad.

Hyfryd oedd gweld Micah Harvey disgybl o flwyddyn 5 yn perfformio yn y Gymraeg wedi iddo fe gwblhau cwrs i ddysgu'r Gymraeg yng Nghanolfan y Felin, Felinfach. Da iawn Micah a diolch o galon i staff y Ganolfan am eu gwaith diflino.



Llongyfarchiadau i fechgyn Bro Pedr am ennill twrnamaint 7 bob ochr Ceredigion yn ddiweddar.

Dyma'r canlyniadau llawn:

Gêm grŵp: Bro Pedr 52-0 Castell Newydd Emlyn

Gêm grŵp: Bro Pedr 32-17 Penweddig

Gêm cyn-derfynol: Bro Pedr 28-7 Aberteifi

Ffeinal: Bro Pedr 26-5 Bro Teifi

Chwaraewr y twrnamaint: Ifan John Davies



Yn Eglwys St Thomas, Llanbedr Pont Steffan cyflwynwyd gwobrau am gynllunio Logo ar gyfer 'Cadwyn Teifi', sef mudiad newydd sydd yn cael ei sefydlu i hybu'r ffydd Gristnogol ymhlith plant a phobol ifanc ardaloedd dalgylch Ysgol Henry Richard, Tregaron ac Ysgol Bro Pedr, Llambod.

Cyflwynodd y Parchedig Suzy Bale y wobwr gyntaf i Elain Williams, Ysgol Bro Pedr a gwelir y Logo a greuodd yn y llun. Elain hefyd oedd enillydd y drydedd wobwr.

Yr Athro Densil Morgan, Cadeirydd y Pwyllgor gyflwynodd yr ail wobwr i Lisa Evans, Ysgol Bro Pedr.

Hefyd yn y llun mae Huw Williams, Pennaeth Celf Ysgol Henry Richard a Nerys Beaumont, Athrawes Celf a Graffeg Ysgol Bro Pedr.

Enw: Steffan Llyr Morgan

Oed: 25

Pentref: Pentrefelin Cellan

Gwaith: Syrffwr

Teulu: Dad a Mam - Andrew Morgan ac Helen Morgan, Brodyr - Iolo ac Osian.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Chwarae James Bond ar iard Ysgol Ffynnonbedr ar Heol y Bryn.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Tomos y Tanc a'i Ffrindiau.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Rhedeg yn noeth o amgylch cae rygbi Llanydddyfri.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

Mwynhau'r cyfnod a pheidio tyfu lan cyn dy amser.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?

FIVE JIVE.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Mecanic a chwarae 'da ceir.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?

Cusan ar fy moch...

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed, neu'r frawddeg bachu a glywaist?

"Sorry, but you owe me a drink. [Why?] Because when I looked at you, I dropped mine."

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Ar drip i weld Cymru yn chwarae rygbi.

Beth yw dy lystenw?

Mogzzy.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?

Rob Brydon.

Pwy yw dy arwyr?

Warren Buffett.

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?


Ginger Nut – Bach o gic.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Dim gorfod eistedd o flaen cyfrifiadur trwy'r dydd a mynd mas i weld y wlad.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Gorfod neud arholiadau RICS, a hynny ar ben gwaith bob dydd.



Y peth gorau am yr ardal hon?

Tawelwch a chostau byw.

Pa mor wyrdd wyt ti?

Gwyrdd iawn – Ddim yn defnyddio bagiau du.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Dibynnu pwy 'dwi'n siarad

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?

Cadw banciau cefn gwlad ar agor.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Talu y Morgais.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Dydd Sul yn dilyn taith i Dublin.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?

Taith rygbi gyda'r bois.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Dychwelyd i weithio yn y fusnes deuluol.

Ac yn bersonol?

Ennill gradd.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Dim teithio mwy o'r byd.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?

Guinness yn Iwerddon.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n

heini?

Cadw'n segur.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

"Trin pobl fel hoffet ti gael dy drin."

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Grand Slam 2005 – Trobwynt i rygbi Cymru.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

BMW 3 Series.

Beth yw dy hoff wisg?

'Smart Casual'

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Jenifer Aniston yn ei 'Heyday'.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Indian - Curry Madras.

Beth yw dy ddiod arferol?

Peint bach o larger.

Beth yw cynnwys dy oergell di?

Bacwn a Chilli Con Carne.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Llyfrau Ffeithiol.

Beth yw dy hoff arogl?

Bacwn yn coginio, yn enwedig ar ôl noson mas.

Sut wyt ti'n ymlacio?

Netflix o flaen y tân.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

Land Registry.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?

Mae 1,192 yn ormod. Falle amser cael 'clear out'!

Hoff gân ar dy ipod?

The Chain – Fleetwood Mac.

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?

3

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

George North.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?

Goodfellas.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Bod 2 fodfedd yn dalach.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?

Bola – Mae'n ddrud i greu.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Canmoliaeth.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?

Nac oes

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?

Athro Sgio yn Siapan.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?

Cwrw yn Twickenham.

Y gwyliau gorau?

Penwythnosau Pencampwriaeth Chwe Gwlad

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

Awstralia, U.D.A a Chille

Arferion gwael?

Gyrru'n rhy gyflym!

Unrhyw dalentau cudd?

Yfed peint o Guinness mewn 3 eiliad.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?

Ddim cael hangovers

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?

Golchi dannedd

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Sir Ceredigion

Yn y Gegin gyda Gareth



Gwledd o goginio yng Nghegin Clonc

Y mis yma mae gennyf gasgliad o ryseitiai 'rwyf wrth fy modd yn eu paratoi adref, os am ddanteithion blasus, syml a maethlon. Maent yn ryseitiai y byddaf yn aml yn eu paratoi mewn arddangosfeydd, a'r myffins yw'r ffefrynnau bob tro. Maent hefyd yn ryseitiai gwych i dynnu'r plant i weithgaredd y gegin dan ofal oedolyn.

Felly mwynhewch y paratoi, - a'r profi !

Pob hwyl,
Gareth

Patis Cig Oen Cymru

300g briwrig oen

1 genhinen ac 1 winwnsyn wedi'u torri'n fân pupur a halen
1 tun bach o india corn 25 g blawd plaen
1 llwy de o saws mintys 1 ŵy
1 kilo o datws wedi'u pilio, torri'n ddarnau a'u coginio, ac yna creu stwnsh ohonynt.

Dull

1. Ffrŵch y briwrig am tua 6 munud; ychwanegwch y genhinen a'r winwns, a'u ffrio am 4 munud arall.
2. I'r tatws mewn powlen, ychwanegwch yr india corn, mintys, pupur a halen a'r blawd, a'r cig gan ychwanegu'r ŵy yn raddol.
3. Rhannwch yn 10, a ffurfïwch i siap patis.
4. Cynheswch olew mewn padell ffrio, a choginiwch y patis nes eu bod yn euraidd.

Cig eidon wedi'i droi-ffrio (Stir-fry)

Darn o sinsir wedi'i dorri'n fân 2 stecen
2 ewin garleg wedi'u torri'n fân 45 ml saws hoisin
4 shibwnsyn wedi'u sleisio ar ongl 1 pupur coch
100g blodigau broccoli 100 g madarch wedi sleisio
1 pecyn nwdls maint canolig wedi coginio 30 ml saws soi

Dull

1. Cynheswch y wok, a ffrŵch y cig mewn olew am tua 5 munud.
2. Ychwanegwch y garleg, sinsir a'r llysiau, a'u troi-ffrio am 5 munud. Yna i mewn â'r 2 saws.
3. Ychwanegwch y nwdls a chynheswch nes bod y cyfan yn boeth.
4. Gweinwch gyda choriander dros y cyfan.

Myffins moron ac oren Digon i greu 12 mawr neu 24 o rai bach

175 g olew blodau'r haul 3 ŵy
175 g siwgwr brown golau 140 g moron wedi'u gratio
100 g resins 1 oren mawr, y croen wedi gratio
200 g blawd codi ½ llwy de soda pobi
1 llwy de sinamon 1 llwy de sbeis cymysg

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 180 C Nwy 4
2. Gosodwch y papurau yn y tun myffins
3. Cymysgwch y siwgwr, olew, a'r wyau. Yna i mewn â'r moron, resins a'r croen oren
4. Hidlwch y blawd, sbeis a'r soda, a'u cymysgu'n ysgafn. Rhannwch rhwng y casus papur
5. Pobwch nes byddant wedi codi ac yn gadarn pan wasgwch â bys. Gadewch i oeri.

I greu topin

Hufenwch 50 g menyn yna ychwanegwch 75 g siwgwr eisin a chroen 1 oren. Gwasgarwch dros y myffins.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Bois y Gilfach



Parti meibion ifanc o ran oed (neu ifanc o ran ysbryd!) yw Bois y Gilfach a sefydlwyd chwe blynedd a hanner yn ôl erbyn hyn. Mae'r bois yn hanu'n bennaf o Ddyffryn Aeron, ardal Banc Siôn Cwilt a'r bröydd cyfagos ac maent yn cyfarfod yn wythnosol yn Nhafarn y Gilfach, Mydroilyn i ymarfer dan arweiniad Heledd Williams, Derwen Gam.

Mae'r bois wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd mewn cyngherddau a nosweithiau cymdeithasol yn gyson ers y dechrau gan godi arian i elusennau ac achosion da'n flynyddol. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf buont yn codi arian i Ganolfan y Bont (sef canolfan addysg i blant ag anghenion dwys yn Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan); Calonnau Cymru a Sefydliad y Galon (gan brynu dau ddiffibriliwr ar gyfer pentrefi Mydroilyn a Derwen Gam); RABI; a Ward Meurig yn Ysbyty Bronglais.

Dewisodd y parti ddwy elusen i'w cefnogi yn ystod 2016/17, sef Beiciau Gwaed Cymru a Parkinson's Cymru. Roedd gweithgarwch y flwyddyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyngerdd arbennig gyda Rhys Meirion, Shan Cothi ac Aled Wyn Davies yn Aberystwyth; diddanu cynulleidfaoedd ar stepen ein drws ym Mydroilyn, Ciliau Aeron a Chaerwedros; mentro dair gwaith dros y ffin i Sir Gâr i ganu yng Nghapel Llanddarog, Neuadd Bro Fana yn Ffarmers a Neuadd Pontargoethi; a darparu adloniant mewn digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gan Siambr Fasnach Aberaeron, Cylch Cinio Llambod, Pwyllgor Sioe Aberystwyth, Côr Llanpumsaint, Tafarn y Llew Du, Ceinewydd a Gŵyl Bysgod Aberaeron. Cawsom y fraint hefyd o ganu mewn sawl priodas gan gynnwys priodas Aled, un o'n haelodau, â Diane yn Eglwys Llanon.

Yn ogystal â'r cyngherddau, cawsom gyfle i lwyfannu "Hwyl hael Jacob, y dwli a'r digri" yn Theatr Felin-fach, sef noson i ddathlu gwaith ysgafn D Jacob Davies. Dan arweiniad Dwynwen Lloyd Llywelyn a Heledd, cafodd y parti lawer o hwyl yn dysgu caneuon a limrigau newydd a gafodd eu cydblethu'n gelfydd â rhai o straeon digri Jacob, a gyflwynwyd gan Dewi Pws. Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol ac yn brofiad gwerthfawr tu hwnt a fydd yn aros yn y cof am sbel.

Penllanw holl weithgarwch y flwyddyn oedd gallu cyflwyno cyfanswm o £1,500 i Feiciau Gwaed Cymru a Parkinson's Cymru mewn gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd gan Fois y Gilfach yng Nghapel y Bryn, Pentre'r Bryn ym mis Rhagfyr. Graham Jones dderbyniodd y siec ar ran Beiciau Gwaed Cymru, a'r Parch. Cen Llwyd dderbyniodd y siec ar ran Parkinson's Cymru.

Mae eleni yr un mor brysur â'r llynedd i'r parti, ac fe gewch chi ychydig o hanes ein hanturiaethau yn ystod 2017/18 pan fyddwn yn cyflwyno siec ar ddiwedd y flwyddyn i Ambiwylans Awyr Cymru, sef yr achos da yr ydym wedi dewis ei gefnogi eleni.

Rydym yn dal i ddenu a chroesawu aelodau newydd (mae gennym tua 30 o aelodau erbyn hyn), felly mae croeso i unrhyw un sy'n mwynhau canu a chymdeithasu ymuno â ni.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini gysurus
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach


Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael



Y mae Chwefror a Mawrth yn fisoedd tawel i redwyr yn ardal Llanbed a chymharol brin yw'r rasys lleol ond yr oedd llawer o redwyr Clwb Sarn Helen yn barod i deithio i ddod o hyd i gystadleuaeth yn ystod y misoedd hyn eleni.



Cafwyd y perfformiad mwyaf disglair gan Sion Price ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Cymru ym Mharc Singleton yn Abertawe ar y 24ain o Chwefror wrth iddo ddod yn 8fed yn y dosbarth agored i ddynion rhwng 18 a 35 oed ac yn 12fed yn y ras gyfan dros gwsr 10 cilometr. Dyma oedd un o'r canlyniadau gorau (os nad yn wir y gorau) gan aelod o Glwb Sarn Helen yn y gystadleuaeth hon- yn llawn addewid am anrhydeddau cynrychiadol yn y dyfodol agos.



Tri aelod o'r Clwb fu'n cystadlu yng Nghynghrair Traws Gwlad Gwent dros y gaeaf yw Sue Jenkins, Ellen Page a Caryl Wyn Davies er na fuont yn rhedeg yn y ras olaf yn y gyfres ym Mhont-y-pwl. Yn ôl yn Rhagfyr ym Mharc Gwledig Pembre fe orffennodd Sue yn 6ed dros 60 oed ac Ellen yn 23ain dros 40 oed. Cyn hynny yr oedd y tair ohonynt yn cystadlu yn Aberhonddu.



Y mae Carwyn Davies yn parhau i ganolbwyntio ar y pellteroedd eithafol wrth iddo ddod yn 24ain mewn 6 awr a 36 munud mewn ras 43 milltir o Aberhonddu i Gaerdydd - cwsr llwybr a heol oedd yn cynnwys dros 2,300 troedfedd o ddringo.

Her o fath gwahanol yw ras 13 milltir dros dir gwastad ac aeth dau o aelodau'r Clwb i redeg Hanner Marathon Llanelli ar y 18fed o Chwefror. Daeth Tony Hall yn 4ydd dros 60 oed mewn 97 munud a 14

eiliad a gorffennodd Emma Gray'r cwsr mewn 2 awr 41 munud a 33 eiliad fel rhan o'i pharatoi ar gyfer Marathon Llundain.

I barhau ym myd yr hanner marathon fe redodd Gareth Hodgson a Caryl Wyn Davies y pellter hwnnw'n llwyddiannus iawn yn Wrecsam ar y 25ain o Chwefror. Cyflawnodd Caryl record bersonol wrth ddod yn 8fed yn ras y menywod mewn 91 munud a 3 eiliad a hithau'n parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn. Daeth Gareth yn 9fed yn ras y dynion mewn 76 munud a 16 eiliad, amser sy'n dangos ei fod ymhlith rhedwyr cyflymaf y Clwb. Hefyd yn Wrecsam ar yr 11eg o Fawrth daeth Ken Caulkett yn 9fed ac yn 3ydd dros 35 oed mewn ras heol 20 milltir mewn 2 awr 8 munud a 46 wrth i'w gymar Jenny frwydro'n dda i orffen mewn 3 awr a 43 munud.

Wrth ymweld â Chernyw ar wyliau manteisiodd Mitchell Readwin a'i fab Christopher ar y cyfle i redeg pobi ras ar lan y môr yn Looe. Gorffennodd Mitchell ei ras 10 milltir mewn 87 munud a 50 eiliad a gwnaeth Christopher yn ardderchog i ddod yn ail yn y ras i fechgyn ysgol gynradd.

Soniwyd yn y rhifyn diwethaf am y "Park Run" a sefydlwyd yn Llannerchaeron eleni gan aelodau o'r Clwb gyda chydweithrediad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y mae'r achlysur yma bellach yn digwydd yn rheolaidd am 9 o'r gloch bob bore Sadwrn gyda rhwng 70 a 100 o redwyr o bob safon yn cymryd rhan dros gwsr 5 cilometr ar hyd y llwybr beic rhwng Llannerchaeron ac Aberaeron. Tra'r oedd Eleri Rivers yn rhedeg ei hamser gorau am 5 cilometr (21 munud a 39 eiliad) yn Llannerchaeron ar y 10fed o Fawrth gwnaeth Caryl Wyn Davies yr un peth mewn "Park Run" yng Nghaerdydd gan lwyddo i redeg y pellter hynny dan 20 munud am y tro cyntaf (19 munud a 59 eiliad.) - enghreifftiau o'r modd y mae rhedwyr ar hyd a lled y wlad yn defnyddio'r digwyddiad wythnosol hwn i hybu eu ffitrwydd.

Mae Transition Llambod, TLDT a Grŵp Paramaethu Llambod yn cyflwyno:

**Noswaith ffilm,
yn rhad ac am ddim
Sadwrn 19 Mai
Neuadd Fictoria,
Heol y Bryn, Llambod**

In Our Hands: Seeding Change
Ffilm ddogfen hyd llun mawr.
Y stori galonogol y tu ôl i waed,
chwys a dagrau'r ffermwyr sy'n
datblygu y tu hwnt i'r system
fwyd diwydiannol yn sgîl Brexit.
Wedi'i wneud gan Black Bark
Films mewn cydweithrediad â'r
Cynghrair Tirwyr.
Gydag isdeitlau.
Drysau'n agor am 6.30 yh.
Ffilm am 7 yh.
Mae mynediad yn rhad ac am
ddim. Croesewir cyfraniadau.
Lluniaeth, trafodaeth anffurfiol.

**£12
yn unig**

yw pris hysbysebu,
a dim ond
£72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**Rhifyn Mai
yn y Siopau
3 Mai**

**Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
23 Ebrill**

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				1	5		3
			5			1	
		5	3				2 8
4	8			1	6		4
7			4		9		
8 5					2	7	
		7			5		
2	3	9					

Swdocw Mawrth:

Llongyfarchiadau i:
**Anne Pugh,
Brynheulwen, Silian,**
a diolch i bawb arall
am gystadlu: John
Bevan, Cilmeri,
Felinfach; Bethan
Williams, Neuadd
Fryn, Llanybydder;
Eurwyn Davies, Heol-
y-Gaer, Llanybydder
a Richard Evans,
Godre'r Coed, Olmarch.

8	1	9	3	7	6	5	2	4
3	2	4	1	8	5	6	7	9
7	5	6	2	9	4	8	3	1
6	8	7	4	1	3	2	9	5
5	4	1	9	2	8	3	6	7
9	3	2	6	5	7	4	1	8
2	7	3	8	4	1	9	5	6
1	9	8	5	6	2	7	4	3
4	6	5	7	3	9	1	8	2

C.Ff.I. Ceredigion.

Shwmai, Alaw a Cennydd fydd yng ngofal adroddiad C.Ff.I. Ceredigion am y 12 mis nesaf.

Cynhaliwyd cystadleuaeth y pantomeim dros wythnos hanner tymor ar ddiwedd mis Chwefror, gyda 14 o glybiau'r sir a 400 o aelodau yn perfformio o flaen theatr llawn bob nos. Cymeradwyodd y beirniad, Dafydd Hywel waith pwysig y mudiad yng nghefn gwlad, gan ddweud ei fod wedi cael wythnos llawn hwyl yn gwyllo'r cystadlu. Diolch yn fawr i brif noddwr yr wythnos sef Ceredigion NFU Trust Fund ac i wahanol aelodau o'r ymddiriedolaeth am eu presenoldeb gydol yr wythnos.



Yn ogystal â Pontsian yn ennill tarian coffa D.J.Morgan am ennill y gystadleuaeth, cyflwynwyd nifer o wobrau eraill ar ddiwedd y noson olaf. Actor gorau 16 oed neu iau oedd Daniel Owen a Jac Hockenhull, Llanddewi Brefi; 3ydd Daniel Evans, Bro'r Dderi. Actores orau 16 oed neu iau oedd Elain Davies, Caerweddros; 2il Elin Rattray, Trisant; 3ydd Lowri Davies, Caerweddros. Yn cipio'r wobwr am yr actor gorau dan 26ain oedd Endaf Griffiths, Pontsian; 2il Richard John Jenkins, Talybont; 3ydd Cennydd Jones, Pontsian. Megan Lewis, Trisant ddaeth yn fuddugol yn yr actores orau 26ain neu iau; cydradd 2il oedd Lia Jones, Mydroilyn a Lowri Williams, Trisant. Enillwyd y cwpan am y cynhyrchydd gorau gan glwb Pontsian; 2il Talybont; 3ydd Caerweddros. Llanwenog ddaeth i'r brig gyda'r set orau. Dyfarnwyd y perfformiad technegol gorau i glwb

Llanwenog; 2il Troedyaaur; 3ydd Felinfach. Daeth clwb Pontsian i'r brig gyda'r sript orau gyda Thalybont yn 2il a Caerweddros yn 3ydd. Derbyniodd pob un o'r enillwyr yma darn o lechen i'w gadw o waith Sianti, Aberaeron ac rydym yn ddiolchgar i Undeb Amaethwyr Cymru am eu rhoi.

Bu'r dihiryn o'r dwyrain yn rhwystr ar y gystadleuaeth ar lefel Cymru, ac fe fu'n rhaid ail-drefnu. Pob lwc i glwb Pontsian gyda'u perfformiad o Frankodeuwedd yn Aberhonddu ar y 15fed o Ebrill.

Cynhaliwyd dawns dewis swyddogion ar yr 16eg o Fawrth yng nghwmni The Tom Collins Band yng ngwesty Llanina. Allan o gystadleuaeth gref, dyfarnwyd y canlynol fel swyddogion newydd y sir;

Brenhines - Elin Haf Jones, Llanwenog. Ffermwr Ifanc - Iwan Davies, Llanddewi Brefi. Dirprwyon - Dyfrig Williams, Llangwryfon; Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon; Lowri Pugh Davies, Bro'r Dderi a Megan Jenkins, Llanddewi Brefi. Llongyfarchiadau gwresog iddynt.



Llongyfarchiadau i Alaw Mair Jones o glwb Felinfach ac i Cennydd Jones o glwb Pontsian am gael eu dyfarnu'n aelodau iau a hŷn ar Geredigion. Derbyniodd eu gwobrau o aelod iau a hŷn y sir am y flwyddyn ddiwethaf oddi wrth Caryl Morris, Llanddeiniol a Gwenan Davies, Mydroilyn - diolch yn fawr iddynt am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bu Alaw a Cennydd yn cystadlu am deitlau C.Ff.I. Cymru ar y 18fed o Fawrth ym Mhort Talbot, ac fe ddaeth y ddau i'r brig. [Llun ar y chwith] Bydd Alaw yn cystadlu am aelod iau Cymru a Lloegr ar ddiwrnod cystadlaethau NFYFC yng Ngorffennaf, tra bydd Cennydd yn ymgeisio yn y CCB yn Blackpool ar ddechrau mis Mai.

O achos yr eira, bu'n rhaid ail-drefnu'r gymanfa ganu ar gyfer y 29ain o Ebrill. Cofiwch fod dal modd i chi gysylltu gyda swyddfa'r sir neu gydag un o swyddogion y sir os am brynu rhaglen, gydag elw'r noson yn mynd at Ward Meurig, Ysbyty Bronglais.

Cynhelir taith gerdded y sir ar y 7fed o Ebrill. Bydd un grŵp yn dechrau o Ynyslas, ac un o Aberteifi gyda'r bwriad o gyfarfod yn Aberaeron. Bydd yr arian a godir yn cael ei roi i uned cemotharapi ysbyty Bronglais. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r swyddfa ar 01570 471444 neu ceredigion@yfc-wales.org.uk.

Cynhelir cinio'r cadeirydd ar nos Wener y 27ain o Ebrill ar gampws Prifysgol Llanbedr Pont Steffan. Bydd cinio 3 cwrs ac Ocsiwn/Disgo ar y noson. Os am fynychu, cysylltwch â'r swyddfa ar 01570 471444 neu ceredigion@yfc-wales.org.uk.

Enillwyr Clwb 200 Mis Chwefror - Helen Hopkins, Brynwichell, Blaenpennal; C.Ff.I. Penparc ac Ifan

Lloyd, Glenbryn, Park Mill, Gower, Abertawe.

Mis Mawrth - Geraint a Caroline Davies, Fron, Pontsian, Llandysul; Lora ac Eurig Davies, Dyffryn, Aberporth a C.Ff.I. Llanddeiniol.

Dyddiadau i'ch dyddiadur - 11, 25 o Ebrill - Hyfforddiant Barnu Stoc y sir. 7 o Ebrill - Taith gerdded y sir. 13 o Ebrill - Gala Nofio'r Sir. 14 o Ebrill - Cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach. 15 o Ebrill - Cystadleuaeth Pantomeim . Ff.I. Cymru - Theatr Brycheiniog. 18 o Ebrill - Pwyllgor gwaith. 21 o Ebrill - Diwrnod Maes C.Ff.I. Cymru - Maes sioe Caerfyrddin. 27 o Ebrill - Cinio'r Cadeirydd - Prifysgol Llanbedr Pont Steffan. 4 - 7 o Fai - CCB NFYFC, Blackpool. 12 o Fai - Chwaraeon y sir.

C.Ff.I Sir Gâr

Cynhaliwyd cystadleuaeth Pantomeim Cymraeg a Saesneg C.Ff.I Sir Gâr yn Neuadd y Gwendraeth yn ddiweddar. Bu pedair noson o gystadlu brwd gydag un Clwb yn cystadlu yn y Pantomeim Saesneg a naw Clwb yn y Pantomeim Cymraeg.

C.Ff.I Llanymddyfri aeth â'r cwpan yn yr adran Saesneg gyda'i pherfformiad o "The Physicians Book". Yn yr Adran Gymraeg, C.Ff.I Penybont daeth i'r brig gyda'i pherfformiad o "Pwrs y Penglog", gyda C.Ff.I Capel Iwan yn ail, a C.Ff.I Llangadog yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i'r holl Glybiau am berfformiadau gwych.

Fe aeth y gwobrau am yr unigolion gorau yn yr Adran Gymraeg a'r Saesneg i'r canlynol:

Perfformiwr gorau 18 oed neu'n iau: Dion Davies, C.Ff.I Dyffryn Cothi; Perfformwraig orau 18 oed neu'n iau: Fflur Richards, C.Ff.I San Ishmael; Perfformiwr gorau 26 oed neu'n iau: Dafydd Evans, C.Ff.I San Ishmael; Perfformwraig orau 26 oed neu'n iau: Sian Williams, C.Ff.I Llangadog a Cynhyrchydd Gorau: Dai Baker, C.Ff.I Penybont.

Fe fydd C.Ff.I Llanymddyfri a Phenybont yn cynrychioli Sir Gâr yn rownd derfynol y gystadleuaeth Pantomeim ar lefel Cymru. Pob lwc iddynt.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n beirniad sef Mr Delme Harries am ei waith yn ystod yr wythnos. Diolch hefyd i bawb fuodd yn cynorthwyo yn ystod yr wythnos a diolch arbennig i Dafydd Lloyd George a Nia Thomas a fu'n gweithio'n ddiwyd wrth y golau a'r sain. Diolch arbennig hefyd i'r oll fuodd yn helpu gyda'r parcio, yn y drws, gwerthu raffl a Swyddogion y Sir am fod yng ngofal y siop yn ogystal â chyflwyno'r pedair noson.

Ni fyddai'r wythnos wedi bod yn bosib heb ein noddwyr sef Cyngor Sir Gaerfyrddin a hefyd i Undeb Amaethwyr Cymru am noddi'r gwobrau.

Aelod iau ac Hŷn y Flwyddyn - Yn ogystal â'r Pantomeim, fe gyhoeddwyd Aelod iau a Hŷn newydd C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn sydd i'w ddod. Heledd Mai Jones, o Glwb C.Ff.I Dyffryn Tywi wnaeth dderbyn yr anrhydedd o fod yn Aelod iau C.Ff.I Sir Gâr am 2017/18. Mae Heledd wedi bod yn aelod gweithgar o'i chlwb Dyffryn Tywi ac eleni yn ysgrifennydd ar y Clwb.

Aeth y teitl Aelod Hŷn y Flwyddyn i Siân Williams o Glwb Ffermwyr Ifanc Llangadog. Mae Siân wedi bod yn aelod gweithgar gyda'i chlwb gan dal sawl swydd o fewn y clwb ac eleni hi yw dirprwy llysgenhades y Sir hefyd. Pob lwc i'r ddwy am y flwyddyn sydd i ddod.



Dion Davies o Glwb C.Ff.I. Dyffryn Cothi ag o Ysgol Bro Pedr wedi ennill perfformiwr gorau o dan 18 oed yn Pantomem Sir Gâr.

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Bu'r aelodau yn brysur iawn yn ystod misoedd cyntaf 2018. Ar yr 8fed o Ionawr cynhaliwyd cyfarfod yn bennaf i drefnu rhaglen 2018-19 a braf oedd derbyn syniadau newydd a gwahanol. Ar yr 20fed o Ionawr cynhaliwyd y cinio Nadolig hwyr yng Nghfefn Hafod, Gorsgoch a mwynhaodd pawb bryd o fwyd tri chwrs blasus iawn. Yn ystod y noson cyhoeddwyd taw Gwen Davies oedd enillydd cystadlaethau misol 2017-18 a chyflwynwyd sgarff liwgar iddi. Dangosodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad i Avril Jones hefyd am ei haelioni yn gwahodd y Gangen i gwrdd yn ei chartref yn ystod mis Rhagfyr 2017 a chyflwynwyd mat bwrdd o lechi iddi. Gwnaed y diolchiadau gan Carol Thomas, y Llywydd a diolchwyd yn arbennig i Ann Hughes am drefnu'r cinio.

Ar y 5ed o Chwefror bu'r aelodau yn gwledda am yr eilwaith, y tro hwn yng Nghegin Gareth. Yn ei ffordd ddihafal ei hun dangosodd Gareth i ni sut i baratoi pryd o fwyd tri chwrs ar gyfer Dydd Sant Ffolant yn hollol ddiffws gyda'r bwydydd yn cynnwys cacen gaws sawrus, garlant o borc, cwpanau o gyw iâr, salad tymhorol a theisen Ffolant. Rhoes sawl cyngor i ni hefyd, er enghraifft

wrth gadw winwns yn yr oergell, ni fydd eich llygaid yn dyfrhau wrth eu torri. Ar ôl paratoi'r bwydydd, bu'r aelodau yn bwyta'r tri chwrs a sawl saig ychwanegol yr oedd Gareth wedi'u paratoi yn awchus. Mwyhaodd pawb y noson mas draw ac roedd ein boliau ni i gyd mas draw hefyd! Ar ddiwedd y noson beirniadodd Gareth y gystadleuaeth fisol, sef teclyn coginio lliwgar a'r enillydd oedd Carol Thomas, gydag Alice Davies yn ail a Rose Bull yn drydydd.

Ar yr 2il o Fawrth ymunodd rhai o'r aelodau â Pharêd Gŵyl Ddewi Llambd gan orymdeithio drwy'r dref ac yna ymgynnull yn Neuadd Fictoria i fwynhau diwylliant Cymru ar ei orau – Côr Cwmann yn canu detholiad o ganeuon traddodiadol Cymraeg a phawb yn ymuno yn y gân.

Bu'r aelodau yn gwledda unwaith eto ar y 5ed o Fawrth yn Y Sosban Fach, Llambd er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mwynhawyd llond bol o gawl, dewis o bwdinau traddodiadol yn ogystal â bara brith a phicau ar y maen gan bawb. Ar ôl y pryd, cynhaliwyd y cyfarfod misol gyda Carol Thomas yn llywyddu a thrafodwyd y materion busnes angenrheidiol. Yna beirniadwyd y gystadleuaeth fisol gan staff Y

Sosban Fach ac enillydd y ffedog bertaf oedd Avril Jones, gyda Ceinwen Roach yn ail a Carol Thomas yn drydydd. Cyn ymadael diolchodd y Llywydd yn gynnes iawn i staff Y Sosban Fach am bryd o fwyd blasus ac i Gwen Davies, yn arbennig, am drefnu'r noson.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Capel-y-Groes ar y 9fed o Ebrill pan fydd Tracy Jones yn arddangos ei dawn yn gwneud gemwaith.

Ar wellhad

Braf gweld bod Dylan Iorwerth, Pen-y-nant yn well ar ôl iddo dreulio rhai diwrnodau yn yr ystyby a derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Anffawd a dathlu

Gobeithio fod Shan Davies, 15 Bro Grannell yn gwella yn dilyn ei hanffawd a thorri ei garddwrn. Hefyd dathlodd Shan ben-blwydd arbennig ar ddechrau'r mis. Cofion cynnes atoch Shan.

Swydd Newydd

Ymfalchiwn ym mhenodiad Meinir Ebbsworth, Brynamlwg yn dilyn ei hapwyntio yn Gyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Ceredigion. Llongyfarchiadau mawr i ti Meinir - clod mawr iawn.

Ymchwil Cancr
Cangen Llanybydder a'r ardal

Noson gyda Huw Evans

Yn Ngwesty'r Cross Hands,
Llanybydder

28 Ebrill 2018

Llywydd Mr Karl Patel
Ocsiwn, Raffl a Swper Ysgafn

Tocyn £15.00
ar gael yn y Cross Hands

Rhif elusen 1089464



01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

Gwesty'r
Grannell
Hotel
Bar & Restaurant

Llanwnnen, Llambd
Ffôn: 01570 480476

Bwyd
Diod
Ystafell i gynnal digwyddiad
Ystafelloedd gwely

PJ PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amdiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith
- o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Lawnsio Llyfr

gan Golwg360



Y beirdd ar y llwyfan; o'r chwith: Idris Reynolds, Megan Richards, Gillian Jones, Aerwen Griffiths, Eirwyn Williams a John Rhys Evans.

Mae gan ardal Clonc ei llyfr barddoniaeth ei hun ar ôl lansio cyfrol arbennig yn Llambd ar nos Iau, 22 Mawrth. Roedd Festri Brondeifi'n llawn wrth i feirdd a chefnogwyr ddod at ei gilydd i ddathlu cyhoeddi 'I Gofio'r Gaeafau' – casgliad o gerddi gan ddosbarth barddol y Prifardd Idris Reynolds.

Pobol leol yw pob un o'r beirdd sydd â gwaith yn y gyfrol a'r cyfan yn bosib oherwydd yr arian a adawodd un ohonyn nhw, y diweddar Ann Rhys, yn ei hewyllys.

'Ewyllys' – arian a llawer mwy

Roedd y gair "ewyllys" yn llawn ystyr, yn ôl Euros Lewis, cyflwynydd y noson lansio.

"Mae'r rhodd ariannol yn galluogi rhywbeth i ddigwydd ac yna'r rhodd o weledigaeth sydd yn deisyfu bod rhywbeth yn digwydd," meddai.

Ac fe newidiodd ychydig ar linell enwog R. Williams Parry wrth ddweud mai "cyd-ddyheu a'i cyhoeddodd hi" – gwaith y dosbarth gyda'i gilydd oedd wedi arwain at y gyfrol a phob dimai o'r arian gwerthiant yn mynd at Ymchwil y Galon, Ceredigion.

Mae'r gyfrol yn cynnwys amrywiaeth fawr o waith, gan gynnwys sawl cerdd gan Ann Rhys ei hun ac mae yno delynegion, limrigau, caneuon, penillion, cywyddau ac englynion.

Mae un englyn gan un o nofelwyr mwya' Cymru, Islwyn Ffowc Elis, a oedd yn un o aelodau cynnar y dosbarth.

Fe soniodd Idris Reynolds fel yr oedd y dosbarth wedi'i ddechrau gan Roy Stephens o Brifysgol Aberystwyth ac yntau wedi cymryd yr awenau pan fu Roy Stephens farw.

Fe fu'n rhaid iddyn nhw symud o Goleg Llambd oherwydd mai cwrs dan adain Aberystwyth oedd e ac yn y diwedd fe gawson nhw eu "cartref ysbrydol" yn Festri Brondeifi.

Fe fu llawer o hel atgofion yn ystod y lansio a'r teitl yn atgoffa pawb mai tros y gaeaf yr oedd y dosbarth yn cwrdd. Roedd pump o'r beirdd yno i dderbyn y copïau cynta' o'r gyfrol gan Roy Davies, gweddw Ann Rhys.

Mae I Gofio'r Gaeafau ar gael o Siop y Smotyn Du am £5.

Llangybi a Betws

Ysgol y Dderi



Er gwaetha'r eira, cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol gyda'r disgyblion i gyd yn rhoi o'u gorau glas ar y llwyfan. Bu Mrs Siân Davies yn brysur yn beirniadu drwy'r dydd a chafwyd perfformiadau graenus i'w cofio. Tŷ Teifi ddaeth i'r brig ar ddiwedd y dydd ac enillwyd y gadair gan Betrys Llwyd Dafydd. Enillodd Ellie Tansley y tlws am y nifer uchaf o farciau yn y cyfnod sylfaen, ac enillodd Beca Ebenezer, Anna Gaiger a Lili Jewell y tlws am y nifer uchaf o farciau yng nghyfnod allweddol 2. Enillodd Nathan Davies y tlws am y cantor mwyaf addawol.

Diolch i gwmni "Performance in Education" am ddod i'r ysgol i rannu neges bwysig iawn am hylendid bwyd. Roedd ganddynt sioe fywiog a chyffrous a gweithdai diddorol i ddilyn.

Bu nifer o'n disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llanbed yn ddiweddar. Cafwyd perfformiad graenus gan y grŵp llefaru ac enillodd nifer o unigolion dystysgrifau amrywiol. Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4, Beca Ebenezer 1af; Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4, Beca Ebenezer 1af; Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 5 a 6, Betrys Llwyd Dafydd, 1af; Unawd Blwyddyn 5 a 6, Dion Teilo, 2il; Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6, Betrys Llwyd Dafydd, 2il; Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6 (D), Zoë Waddington, 1af; Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau, Betrys Llwyd Dafydd, 2il. Llongyfarchiadau gwresog iddynt.

Cynhaliwyd gweithdy graffiti gan Andy Birch o gwmni Dime One yn nosbarth blwyddyn 1 a 2. Cafwyd diwrnod i'r brenin yn dysgu sgiliau newydd a mae'r murlun yn gampwaith!

Diolch i Brifysgol Aberystwyth am gynnal gweithdai Gwyddoniaeth amrywiol yng nghyfnod allweddol 2. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau gweithdy Lego DNA, a bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn mwynhau gweithdy ar robotics. Ffordd berffaith i ddathlu Wythnos Gwyddoniaeth Prydeinig.

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer ein noson o Gawl a Chân! Bu'r disgyblion yn diddanu'r gynulleidfa gydag eitemau Eisteddfod amrywiol. Roedd y staff yng ngofal gweini'r cawl, bara-brith a phice bach. Diolch i bawb am gyfrannu mor hael tuag at y noson llwyddiannus dros ben.

Llongyfarchiadau mawr i Zoë, Betrys a Beca am gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Sir. Roedd y dair wedi perfformio'n raenus dros ben ac wedi rhoi o'u gorau glas. Llongyfarchiadau gwresog i Betrys am ennill yr ail wobr yn yr Unawd cerdd dant Blwyddyn 5 a 6, ac i Zoë Waddington am ennill y Llefaru unigol i ddysgwyr, blwyddyn 5 a 6. Ymlaen i Lanelwedd ym mis Mai!



Bu disgyblion dosbarth Derbyn yr ysgol draw yn Ysgol Bro Pedr i gwrdd â'r prifardd Aneurin Karadog. Bu'r plant yn gwrando'n astud ar stori, yn barddoni ac yn gwneud gwaith crefft. Trefnwyd y bore gan "Books Trust" a rhoddwyd tystysgrif i bob disgybl. Roedd pob un wedi mwynhau y profiad yn fawr.

Diolch i PC Hanna am ddod i'r ysgol i gynnal gweithdy am gyffuriau gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Cafwyd prynhawn addysgiadol iawn yn ei chwmmi.

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn Eglwys St Cybi gyda'r Parchedig Elizabeth Arnold Davies yn addurno'r eglwys yn barod am ddathliadau'r Pasg. Roedd yr adeilad yn edrych yn fendigedig.



Teithiodd Lili, Tristan, Nathan a Teifi i wlad Groeg gyda Mrs Ann a Mr Dylan yn ddiweddar i fynychu cyfarfod Erasmus. Roedd Ysgol Peristeri yn y brifddinas sef Athen, a chawsom groeso arbennig iawn ganddynt. Daeth rhai o'n ffrindiau o Norwy a'r Eidal hefyd i'r cyfarfod. Roedd rhaid i ni berfformio chwedl Gymreig mewn cyngerdd ac roedd y neuadd yn orlawn o rieni, athrawon a phlant yr ysgol. Roedden ni wedi paratoi perfformio chwedl Cante'r Gwaelod ac roedd pawb wedi mwynhau ein perfformiad yn fawr. Cawson ni gyfle wedyn i fwynhau chwedlau o wlad Groeg, Norwy a'r Eidal. Buon ni'n ymweld â llawer o lefydd diddorol ond yr uchafbwynt oedd yr Acropolis yn Athen. Roedden yn gallu gweld am filltiroedd a'r gorwel ymhell! Dyma beth oedd wythnos fythgofiadwy!



Diolch i griw Ceredigion Actif am drefnu gŵyl chwaraeon i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yr ardal. Bu Ysgol Y Dderi yn cynrychioli Camerŵn yn y gemau a bu pawb yn rhedeg milltir i Sports Relief hefyd. Dyna beth oedd bore egniol iawn!

Hamdden

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yng Nghegin Gareth lle cafwyd gwledd fendigedig o Gawl a danteithion dirgel a chwmmi diddan. Roedd yr ystafell fwyta wedi chael ei haddurno yn addas iawn yn y modd traddodiadol. Cyn diwedd y cyfarfod cafwyd adloniant ysgafn gydag aelodau yn canu yn unigol ac mewn deuawdau ac aelodau yn cyd ganu. Darllenwyd barddoniaeth hefyd. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i bawb a fu ynglwm â llwyddiant y prynhawn gan Sally Davies ac fe gofir am yr achlysur yma am hydoedd. Enillwyd y raffl gan Raymond Farrow, Jill Smith, Alunda Jones, Betty Lockyer, Helen French, Gwen Lewis, Maisie Morgans, Peter Cornelius, Maureen Williams, Jean Baker, Sally Davies a Mair Spate. Cydymdeimlwyd a theulu y diweddar Janet Courtney.

Trip Dirgel ar Ebrill 6ed fydd y cyfarfod nesaf.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu a ffrindiau y ddiweddar Mr Aled Williams, Godre'r Coed, Olmarch a fu farw adref yn frawychus o sydyn ac yn annisgwyl iawn ac ôl derbyn triniaeth mewn ysbyty. Cydymdeimlwn hefyd â theuluoedd eraill a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Tudur Jones, Penybanc ar ôl ei driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Llangybi a Betws

C.Ff.I. Bro'r Dderi.

Yn gyntaf, hoffai holl aelodau, arweinwyr a chyfeillion CFfI Bro'r Dderi estyn llongyfarchiadau gwresog i Lowri Pugh-Davies ar gael ei dewis fel un o ddirprwyon CFfI Ceredigion 2018/19. Pob hwyl iddi a gweddill y criw yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai prysur iawn i'r clwb gyda'r holl ymarferion yn ein harwain i gystadleuaeth Pantomeim y Sir. Bu Daniel Evans yn llwyddiannus iawn wrth gael y 3ydd fel actor dan 16. Llongyfarchiadau iddo ef!

Ar y 15fed o Fawrth, cafwyd cyngerdd y Panto yn Theatr Felinfach. Bu'n noson llwyddiannus iawn yng nghwmni CFfI Llanllwni. Roedd yn braf gweld cymaint yno a diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r noson.

Bu Hedydd Davies hefyd yn llwyddiannus mis yma gan ei bod yn rhan o dîm Siarad Cyhoeddus Saesneg a chafodd 3ydd yng Nghystadleuaeth Cymru.

Felly gydag hynny, mae Mis Mawrth wedi bod yn fis prysur a llwyddiannus i'r clwb. Edrychwn ymlaen nawr i'r misoedd sydd i ddod, ac i'r daith gerdded nodedig Her y Cadeirydd Sir, lle mae nifer o aelodau'r clwb yn bwriadu cymryd rhan. Os ydych am noddi'r clwb ar y daith, croeso i chi gysylltu â ni.

Merched y Wawr Y Dderi

Eleni eto dathlwyd Gŵyl Ddewi yn y modd traddodiadol yn y Pantri lle cafwyd gwledd fendigedig o Gawl a sawl fath o bwdin i ddilyn. Pryd blasus iawn. Croesawyd pawb i'r achlysur arbennig yma gan yr Is-Lwydd Deborah Jones ac fe draddodwyd y fendith gan Ann Davies. Rhoddwyd y Raffl gan Ann Davies a Margaret Davies-Jones ac fe'i henillwyd gan Deborah Jones ac Ann Davies. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi am 7.00y.h. ar Ebrill 18fed pryd y disgwylir y Fon. Beti Griffiths i'n hannerch.

Ar Fawrth 7fed bu'r Dderi yn ffodus iawn i gael gwahoddiad gan Ferched y Wawr Tregaron i ymuno â hwy yn ei dathliad o Wyl Ddewi. Cawsom groeso cynnes, gwledd fendigedig ac arddangosfa o osod blodau penigamp gan y Bon. Donald Morgan. Roedd pawb wedi mwynhau y noson yn enfawr. Ein llywydd Gwyneth Jones fu yn rhoddi pleidlais o ddiolch drosom oll.

Myfyrdodau Jones y Fish

Dyma'r olaf o bump erthygl a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer papur bro gan Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd a enillodd iddo'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Yn ôl y beirniad, Catrin Withers, roedd Jones y Fish – neu Huw Alltgoch i ni – yn "... ysgrifennu'n dda mewn tafodiaith rywiog."

'Ar fuarth mawr yr Hafod'

Mochyn dau dwlc, ceiliog bantam a llo heb ei lyo. Disgrifiadau o ferchetr, pwysigyn a llipryn ond bod y dweud plaen wedi troi'n ddweud pert, yn deillio o ymwneud pobl â'r tir a'u hanifeiliaid.

Dechreuwn gyda sgweier y twlc. Mae'r sawl sy'n bwyta'n farus fel hwch yn swêts ac os yw'n rwsian yn swnllyd mae fel hwch yn byta cols. Edrycha ambell blentyn fel pe bai wedi bod yn sugno'r hwch ac os aiff yr hwch drwy'r siop mae'r sefyllfa ariannol wedi mynd yn ffradach, ond efallai bod hi'n pipo yn y drws ers tro! Gwyllt a di-wardd yw'r whilgrwt sydd fel mochyn heb ei gwyrso a thowlu llygad mochyn mae rhywun slei. Ceir rhigwm lleol i ddisgrifio'r mochyn tew:

Ar ei gefn mae cig yn rhwmlle
A thwll ei din e mewn yn rhywle.

A'r mochyn tenau:

Ar ei gefn does gig 'run bripsyn
A thwll ei din e mas yn bigyn.

Wnaiff 'run dro i berson! Gwell peidio â manylu am groten sydd fel hwch lodiog na sôn am fynd â'r hwch at y ba'dd rhag ofn iddi fynd yn draed moch!

Ffrwlen o groten o gyffelyb anian sy'n mynd yn wasod yn cratsh, cyn dod i oedran rhedeg 'da'r tarw. Ond, bydd rhaid i'r fuwch gael tarw pan fydd hi'n wasod! Ar ôl geni bydd fel anner-lo--cynta yn or-ffyslyd o'i phlentyn, ond ffolineb fydd ei fagu fel llo lloc, yn ddieithr i bethau'r byd. Gall besgi fel llo'n sugno dwy fuwch - bydd eisiau codi rhastal hwnnw, ond llo fydd llo, ddaw'r un llo'n geffyl o'i fagu'n y stabal. Weithiau mae angen rhoi bys i'r llo gael sugno - ei annog, ond gall rhai pobl gymryd mantais o haelioni ac yfed fel llo'i bwcedi. Mae'r sawl sy'n byw ar y wlad yn godro'r fuwch fowr a phan ddibenna'r arian, mae'r fuwch yn hesb. Mae'n werth cnoi cil dros hynna!

A'r ffowls: mae ambell fenyw â threfen iâr ddu a cheir ambell geilociar; 'mifyr - mihafar, dim bwch na gafar' yw hwnnw. A'r gwenen fach ifanc yn magu cwils, os cwrddith â thipyn o geiliog ni fydd hi'n hir cyn gori mas! Doeth yw codi 'da'r ceiliog a chlwydo 'da'r ieir, annoeth hala'r hwyed i nôl gwydde o'r dŵr, a pheidiwch â rhoi allwe'r cwbl ffowls i'r cadno.

A da chi, daliwch ati i arfer tafodiaith bert y clos.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



Cofrestrwch ar ein
gwefan gymunedol
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu
eich stori chi.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed

☎ 01570 423135

☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

“Os hoffech wybod sut ...”

Dychmygwch ardal Clonc heb ffermwyr. Dim tractors anferth yn bownsio hyd yr hewlydd mawr neu'n llusgo hyd y rhai culach, dim sgwaru dom i bersawru'r awyr a dim hen ddefaid yn brefu o hyd.

Ac wedyn, meddylwch beth fyddai'n digwydd i'r wlad. Cloddiau a gwrychoedd yn tyfu'n wyllt, brwyn ac ysgall yn lledu ymhobman ac wedyn rhyw fân goed a mieri.

Dydi'r syniad ddim mor wirion â hynny o gofio rhai o'r pethau sy'n digwydd ac yn cael eu dweud, gan bobol sy'n ymgyrchu tros yr amgylchedd a gan rai gwleidyddion.

Ar un olwg, mae ganddyn nhw ddadl dda. Fyddai llawer o ffermwyr hyd yn oed ddim yn gwadu bod rhai pethau wedi mynd yn rhy bell o ran defnydd o gemegau a pheiriannau a ffermio ffatri.

A does dim llawer o amheuaeth fod ffermio dwys yn ychwanegu at broblemau'r byd naturiol o'n cwmplas, o golli pryfetach ac adar i dlodi'r pridd a moeli'r mynyddoedd.

Yr hyn sy'n cael ei anghofio yn aml ydi pam fod hyn i gyd wedi digwydd – oherwydd ein hawydd ni i gael bwyd rhad ac awydd y gwleidyddion i gael ein pleidleisiau ni.

Dw i'n siŵr y byddai llawer iawn o ffermwyr yn fodlon troi'n ôl ychydig at ffermio mwy hamddenol, pe bai hynny'n talu i'r ffordd. Ac mae llawer o ffermwyr yn anhapus am y barwniaid tir yn Lloegr sy'n gwybod sut i rofio grantiau heb erioed rofio rhofiad o ddom.

Pe bai'r peth yn gwneud sens ariannol, dw i'n siŵr y byddai llawer hefyd yn fodlon troi at gynnyrch gwahanol a dulliau llai dwys; addasu felly y mae'r byd amaeth wedi gwneud erioed.

Y bregeth fawr y dyddiau yma ydi y dylen nhw fod yn gofalu am fyd natur; dyna neges Michael Gove yn San Steffan ac mae y syniad o “nwyddau naturiol” (fel dŵr glân, harddwch, atal llifogydd a chreu lle braf i dwristiaid) wedi bod yn boblogaidd yng Nghymru hefyd ers blynnyddoedd.

Dydyn nhw ddim fel petaen nhw'n cydnabod bod bwyd yn un o'r “nwyddau naturiol” hynny. Mater arall ydi ystyried y ffordd orau i'w gynhyrchu a pha fwyd yn union.

‘Ffermydd’ mewn dinasoedd, nid cefn gwlad

Roedd yna raglen ar y radio y dydd o'r blaen yn sôn am ffermio pysgod môr, fel eog. Nid mewn cewyll mawr ger glannau'r Alban, ond mewn shediau anferth ar gyrion Llundain. Mae hynny eisoes yn digwydd.

Pe bai'r un math o beth yn digwydd efo anifeiliaid fferm neu, ymhellach i'r dyfodol, os bydd cig yn cael ei dyfu'n artiffisial, fydd dim rhaid i fwyd ddod o ffermydd traddodiadol o gwbl.

Y dewis arall, wrth gwrs, a'r un amlwg yn y tymor byr, fyddai dibynnu mwy a mwy ar gario bwyd i mewn o wledydd tramor. Efo'r ffasiwn o droi yn erbyn cig ar gynnydd, mae'n bosib iawn mai llysiau o Affrica a llefydd o'r fath fydd llawr o'r rheiny.

Felly, mi allwch chi ddychmygu bwyd rhad yn dod o ffatrioedd neu o wledydd tramor a rhyw ychydig o fwyd naturiol, organig, rhinweddol i'r crachach yn cael ei dyfu yng nghefn gwlad. Mewn llawer llai o ffermydd, ar y tiroedd gorau,

O'u cwmplas nhw, mi fyddai'r gwylltiroedd naturiol yn lledu, yn llawn o greaduriaid ac adar, ond dim pobol i'w gwerthfawrogi nhw, heblaw am ymwelwyr o'r dinasoedd yn dod i gael cip ar fyd natur yn ei holl ogoniant.

Fyddai dim angen llawer o bobol i ddelio â'r rheiny, a dim pentrefi a threfi go iawn, dim ond canolfannau i gynnig gwasanaethau a chynnyg ychydig o antur-gwneud – o lwybrau beicio i wifrennau gwibio ac anturiaethau arfordir.

A sut olygfeydd fyddai yno? Heb ffermwyr i drin y tir, fydden nhw ddim tebyg i'r math o olygfeydd sydd ar gael heddiw. Ac mae'n anodd dychmygu llawer o bobol a fyddai'n fodlon llafurio dim ond er mwyn cadw cloddiau'n daclus a chlririo helyg o gors.

Ynghanol y pryder digon teg am yr amgylchedd a byd natur, mae'n bwysig gweld yn glir. Mae'n bwysig iawn dychmygu.

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543823

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llanbed

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr, Llanbed

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

W.D. Lewis

ffabrics
Agricultural Machinery

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno

Gwasanaeth troi Vhs i Dvd



Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Eboost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Cwmsychpant



Siarad Cyhoeddus
Llongyfrachiadau mawr i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ac aelod o C.F.F.I. Pontsian a fu'n cynrychioli Ceredigion yn ddiweddar ar ei llwyddiant ym maes y Siarad Cyhoeddus ar lefel Cymru yn Llanellwedd. Bu'n cystadlu o dan 14 oed yn Saesneg a chael 2il fel Cadeirydd a 3ydd fel tîm [llun uchod]. Aelodau eraill y tîm oedd Siwan George, Lledrod a Beca Fflur Williams, Talybont ac yna o dan 16 oed yn yr Adran Gymraeg cydradd 2il fel diolchyd a 3ydd fel tîm [llun isod]. Aelodau eraill y tîm oedd Siwan George, Lledrod a Sioned Fflur Davies, Llanwenog. Da iawn ti Beca.



Hefyd, llongyfarchiadau i Endaf Griffiths, Penlanfawr a oedd yn aelod o dîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.F.F.I. Ceredigion dan 26 oed Seiat Holi. Daeth y tîm yn 1af ac hefyd Endaf enillodd yr Unigolyn Gorau. Mae'n amlwg bod gennym siaradwyr da i gael yn y Cwm!



Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er
mwyn rhoi
neges o ddiolch
ym Mhapur
Bro Clonc os
gwelwch yn dda.

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbedd
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

LKitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL WELY WEDI'U FFITIO, ATEGOLION CEGIN, CYFARPAR TRYDAN, TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD, LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnwydd,
01570 434 243
07815 962 045





Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shw' mae ffrindiau bach? Mae'r haul wedi bod yn gwenu ac mae'r cennin pedr yn flancedi melyn ar bob clawdd. Rwyf wrth fy modd yn chwarae tu allan a dw'i wedi bod yn gwneud hynny'n barod yn ystod gwyliau'r Pasg. Ydych chi'n mwynhau'r gwyliau? Beth ydych chi wedi bod yn gwneud? Wel rydw i wedi bod yn stwffio fy mol yn llawn wyau siocled blasus. Gwnaeth fy mam, Lili Loncen, baratoi helpa wyau allan yn yr ardd i mi a fy ffrind Gwenno'r gwningen fach wen. Cefais llond bol o fwyta wyau siocled erbyn y diwedd. Ydych chi'n mwynhau bwyta wyau siocled?

Rhywbeth arall a'm gwnaeth i'n hapus yn ddiweddar hefyd oedd derbyn eich holl luniau bendigedig chi. Mi fuodd nifer ohonoch yn brysur iawn ym mis Mawrth a diolch yn fawr i Noa Potter-Jones o Drefach, Elliw Grug Davies o Lanybydder a Gethin Jones-Thomas o Drefach am liwio lluniau arbennig. Ond y llun a wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn oedd un lliwgar ac ardderchog Tiffany James Davies, 15 Bro Llan, Llanwnnen. Da iawn ti!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun fy ffrindiau ar y fferm yn eu cartref clyd. Cofiwch ddanfôn eich lluniau nôl erbyn dydd Llun, Ebrill 23ain.

Ta ta tan toc.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Tiffany
James
Davies

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

O San Steffan

gan Ben Lake AS



Yn fy ngholofn ddiwethaf ym mis Chwefror, bu i mi ymateb i benderfyniad trychinebus NatWest i gau canghennau yn Aberteifi a Llambled, a dros yr wythnosau diwethaf dwi wedi bod yn ymgyrchu'n chwyrn yn erbyn y penderfyniad ar lefel lleol, cenedlaethol ac yn y siambr yn San Steffan.

Mae hi'n warthus bod banciau'n medru gadael ein trefi gwledig heb fawr ystyriaeth i'r goblygiadau gaiff hynny ar gwsmeriaid, busnesau a'r gymuned leol. Rydym eisoes wedi profi yr effaith ysgytwol mae cau canghennau wedi ei gael ar drefi a chymunedau yng Ngheredigion. Fy mhryder nawr, fel nifer ohonoch, yw bod cau canghennau Natwest yn Aberteifi a Llambled ond yn gychwyn ar gynnod lle bydd mwy-fwy o fanciau yn hel eu pac a gadael ein trefi ar fyr rybudd. Yn hynny o beth, rwyf wedi ysgrifennu at reolwyr y banciau sy'n parhau i fasnachu yng Ngheredigion gan ofyn am warant o'u presenoldeb hir dymor yn y sir.

Tu hwnt i hyn, rwyf hefyd wedi mynd ati i leisio fy mhryderon yn San Steffan, gan gyflwyno mesur fydd yn ei gwneud hi'n anoddach i fanciau gefnu ar ein cymunedau. Tair prif elfen sydd i'r mesur, ac maent yn adleisio nifer o'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd yn Aberteifi a Llambled rai misoedd yn ôl, sef:

- Newid y protocol 'Access to Banking' fel bod angen i fanciau ystyried yr amser teithio i'r banc agosaf - nid y pellter yn unig;
- Creu 'hw' bancio – gan newid y gyfraith i alluogi banciau i gydleoli mewn adeiladau a rhannu gwasanaethau. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n fwy cost effeithlon i fanciau medru aros ar agor yn lleol;
- Cynyddu gallu'r Swyddfeydd Post Lleol i ddarparu mwy o wasanaethau bancio.

Bu i mi gyflwyno'r mesur i'r Senedd ar 27 Chwefror, ac yn dilyn cefnogaeth gan bob plaid wleidyddol, rwy'n falch iawn y bydd y mesur yn cael darlleniad pellach fis Tachwedd eleni.

Gyda thwf technoleg, does fawr amheuaeth bod arferion bancio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni ddylai'r chwyldro digidol fod yn gyfiawnhad dros ddisodli rôl hollbwysig banciau fel calon ariannol ein trefi. Mae'n hen bryd bod anghenion bancio ein cymunedau gwledig yn cael eu parchu a'u diogelu.





Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [Ysg dros 50] – Ysgol Dyffryn Cledlyn 3ydd.



Ensemble Lleisiol Bl. 7-9 – Ysgol Bro Pedr 2il.



Ensemble Lleisiol Bl. 10 ac o dan 19 oed – Ysgol Bro Pedr 2il.



Ysgol Bro Pedr - Grŵp Llefaru bl. 6 ac Iau [D] – 2il a Parti Unsain [D] 2il.



Grŵp Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac Iau – Ysgol Carreg Hirfaen 3ydd.



Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [ysgolion dros 100] – Ysgol Dyffryn Cledlyn 2il.



Dawns Aml-Gyfrwng Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 2il.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Breccs * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau – Adran Llambled 1af.



Ensemble Lleisiol Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 – Betrys Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi 2il.



Unawd Bl. 5 a 6 – Elan Jenkins, Ysgol Dyffryn Cledlyn 2il.



Llefaru Bl. 3 a 4 [D] – Kyna Logan, Ysgol Bro Pedr 2il.



Monolog Bl. 10 ac o dan 19 oed – Twm Ebbsworth, Ysgol Bro Pedr 1af.



Alwena Owen, Adran Llambled – Unawd Telyn Bl. 6 ac Iau – 2il; Cyflwyno Alaw Werin Bl. 6 ac Iau – 2il ac Unawd Piano Bl. 6 ac Iau – 2il.



Lowri Elen Jones, Aelod Unigol – Cyflwyno Alaw Werin 19 – 25 oed 1af; Unawd Sioe Gerdd 19 – 25 oed 2il.



Unawd Bl. 3 a 4 – Erin Potter-Jones, Ysgol Dyffryn Cledlyn 3ydd.



Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 [D] – Zoe Waddington, Ysgol Y Dderi 1af.

Llongyfarchiadau i Heledd Besent, Aelwyd Llambled – Cyflwyno Alaw Werin 19 – 25 oed 2il; Unawd Sioe Gerdd 19 – 25 oed 1af a Llefaru 19 – 25 oed 2il.

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth yn dda yn Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion. Pob lwc i chi yn Llanelwedd!



Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac Iau – Betrys ac Alwena, Adran Llambled 1af.



Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 ac o dan 19 oed – Beca ac Elan, Aelwyd Llambled 1af.



Llefaru Unigol Bl. 7 – 9 – Gruffydd Llwyd Dafydd, Ysgol Bro Pedr 3ydd.